YR

YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

RHIF. 59.] TACHWEDD, 1863. [AIL GYFRES.

CYNNWYSIAD.

TUDAL.

Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith 245
Joguth Chunder Gangooly 250
Y Ddacargryn 253
Dr. Franklin 255
Enwogion Sir Aberteifi 256
Eryr 259
Edrych i fyny 259
Penglog 260
Cynghorion i Fab 262
GOHEBIAETHAU—
Beth yw Cristion? 263
Gofyniad ar Ioan viii 44 263
HANESION CARTREFOL A THRAMOR—
Y Llŷs 264
Y Weinyddiaeth 264
Tanchwa ddychrynllyd yn Ngwaith Glo y Morfa 264
Haelfrydedd ardderchog ac esiampl odidog dda 265
Y Cyfandir 265
Ffraingc 265
Germany 266
Rwssia a Poland 266
America 266
New Zealand 266
Cyfarfod Cwarterol Gwyl Mihangel 266
MARWOLAETH—Joseph Joseph 267
ESGORWYD—Priod y Parch. Titus Evans 267
BARDDONIAETH—
Mawl-gân Mrs. Perkins, Garnant House, Cwmaman 218
Englynion ar y mawr les a ddaeth i ddyn trwy yr efengyl ac adgyfodiad Iesu Grist 268
Y Llyngcwr Diod i'r Botel 268
Ymostyngiad i'r Ewyllys Ddwyfol 268
Y Pedair Alban 268

Penybont:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.

[PRIS 3c.—TRWY Y POST, 4c.]

YR YMOFYNYDD.

RHIF. 59.] TACHWEDD, 1863. [AIL GYFRES.

HWY A DDYGASANT YR ARGLWYDD YMAITH.

GAN RUSSELL LANT CARPENTER.

FEL yr oedd menyw dduwiol un tro yn myned allan o un o gapeli yr Undodiaid, clywyd hi yn dywedyd, "Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith, ac ni wyddom ni pa le y dodasant ef!" Feallai na chlywodd hi ddim o'r enw oedd hi'n garu gymmaint yn yr holl bregeth; feallai yn wir nad oedd e ddim yn y testun er fod hwnw o'r Beibl. Clywodd e yn siwr ddigon yn y gweddiau os naddo yn yr emynau:—yr oedd yn debyg o fod yn y wers o'r Testament Newydd, os nad oedd yn y wers o'r Hen. Ond yr oedd wedi gwrando, 'roedd hi'n meddwl, ar bregeth di-Grist, ac o ganlyniad ar bregethwr anghristnogol. Nid wyf fi'n gwybod dim beth oedd pwngc y bregeth; dichon ei fod wedi ei dynu o drysorfa doethineb yr Hen Fyd—Diarhebion Solomon: etto a oedd dim o Crist yn cymmeryd testunau o'r fath? Feallai mai rhyw ddammeg oddiwrth fywyd cyffredin ydoedd; ond nid oedd un ddammeg yn ymddangos yn sanctaidd iddi hi oddieithr ei bod yng ngeiriau yr Ysgrythyrau, "Car dy gymmydog fel ti dy hun;" ond byddai pregeth ar ddyledswydd yn ymddangos iddi hi yn "foesoldeb sych" neu "bregethu cyfreithiol" *(legal)*. Y mae y rhai hyny sydd yn credu fod pob rhan o'r Beibl yn ysbrydoledig yn aml yn cael eu haflonyddu, yn fwyaf pan y byddo'r pregethwr yn cymmeryd mantais o'r rhes mawr o byngciau y mae amrywiaeth yr Ysgrythyr yn eu hawgrymu; a gall fod y rhai hyny sydd yn addoli Crist yn cael eu siomi pan glywant bregethau wedi eu seilio ar Bregeth Crist ar y Mynydd, neu ar ei orchymynion. Y maent am glywed am Grist yn hytrach nag am ei eiriau. Feallai fod y gweinidog yn pregethu y diwrnod hwnw ar Grist, ond nid fel yr oedd hi yn dymuno:—ni chlywodd hi ddim o hono yn cael ei alw yn Dduw'r Mab. Dichon mai desgrifiad o'r Iesu oedd fel yr ymddangosodd ym mysg dynion,—mor addfwyn a gostyngedig, fel y darfu i'r rhai a ddisgwylient am Grist i eistedd ar orsedd Dafydd, ddiystyru y saer o Nazareth, yr hwn a ganiatäai i'r Rhufeiniaid i lywodraethu arnynt! Neu yr oedd hi am glywed am y *groes* ac am yr *un croeshoeliedig;* ond nid oes dim o'r geiriau hyn yn Epistolau Iago a Phedr, Ioan a Judas, ac y mae yn bossibl ddigon nad oeddynt yn y bregeth hono; neu os oedd y pregethwr yn siarad am y bendithion a dderbyniwn trwy farwolaeth Crist, dichon na ddywedodd efe ddim am yr "aberth iawnol" neu'r pethau hyny ag oedd hi yn eu hystyried yn angenrheidiol i iechydwriaeth.

Nid oes un ammheuaeth na ddarfu i'r fenyw dda fyned adref yn ofidus o

galon, wrth feddwl nad oedd y rhai a arferent gyrchu i'r capel hwnw ddim yn clywed Crist yn cael ei bregethu, ac iddi wneuthur penderfyniad nad elai byth tufewn i'r caerau hyny drachefn. Wn i yn y byd a agorodd hi ei Beibl, a meddwl am dani hi yr hon a lefarodd y geiriau a adroddwyd ganddi, ac edrych pa le a pha bryd y dywedodd Mair Magdalen hwy. Ceir hwynt yn Ioan xx. —; hanes yr adgyfodiad. Yr oedd Mair, pan oedd hi etto yn dywyll, wedi myned at y bedd, ac wedi gweled fod y gàreg wedi ei threiglo ymaith, hi a redodd a daeth at Pedr a'r disgybl arall yr hwn a garai yr Iesu, a dywedodd wrthynt, "Hwy a ddygasant yr Arglwydd ymaith o'r bedd ac ni wyddom ni pa le y dodasant ef." Aethant yn ol gyda hi; ond dychwelasant adref pan welsant nad oedd y corph yn y bedd. Ond er fod Mair y tuallan i'r bedd, yn wylo; ac er iddi weled angylion, ni theimlodd un gobaith nac un llawenydd; a phan ddywedasant wrthi, "O wraig, paham yr wyt ti yn wylo?" Attebodd iddynt, "Am ddwyn o honynt hwy fy Arglwydd i ymaith, ac nas gwn pa le y dodasant ef." Ac wedi dywedyd o honi hyn, hi a droes drach ei chefn, ac a welodd yr Iesu yn sefyll: ac nis gwyddai hi mai yr Iesu oedd efe. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, "O wraig, paham yr wyt ti yn wylo? Pwy yr wyt ti yn ei geisio? Hithau yn tybied mai y garddwr oedd efe a ddywedodd wrtho, syr, os tydi a'i dygaist ef, dywed i mi pa le y dodaist ef, a myfi a'i cymmeraf ef ymaith." Yr Iesu a ddywedodd wrthi, "Mair." Hithau a droes, ac a ddywedodd wrtho, "Rabboni!" (yr hyn yw dywedyd Athraw.) Yr Iesu a ddywedodd wrthi, "Na chyffwrdd â mi," (paid ymlynu wrthyf, fel pe bawn ar fedr dy adael ar unwaith,) "oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad. Eithr dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau."

Pe buasai hi wedi darllen y bennod hon, hi a welsai fod Mair wedi adrodd y geiriau hyny, pan oedd ei ffydd hi wànaf. Ymofidiai am yr hyn a ddylai fod yn llawenydd iddi! Cafodd ei brawychu wrth weled y bedd yn wâg, pan ddylasai ei wagder fod wedi llanw ei chalon â gorfoledd. Hi a ddywedodd, "hwy a ddygasant fy Arglwydd i ymaith, ac nis gwn pa le y dodasant hwy ef," wrth yr angylion, y rhai oeddynt dystion o'i adgyfodiad ef! Yr oedd mor awyddus i weled y *corph marw* yr hwn oedd yr oll o'r Crist a wyddai hi am dano, fel nad adwaenai y *Crist byw* oedd yn sefyll ar ei phwys. Cymmerodd Arglwydd y Bywyd yn lle garddwr, yr hwn tybiai oedd wedi symud o'r bedd yr hyn oedd anwylaf ganddi! Yn sicr fe ddylai y rhai hyny sydd yn defnyddio geiriau Mair, edrych nad ydynt yn cyfranogi o gyfeiliornad Mair, ac yn methu adwaen yr Iachawdwr byw yn eu ymchwiliad pryderus am ryw ffurf, neu air, neu athrawiaeth ar yr hwn y maent wedi canolbwyntio eu holl gariad.

Y mae llawer math o ddallineb yn bod. Y mae dallineb rhagfarn a balchder:—"Nid oes neb mor ddall a'r rhai ni fynant weled." Nid oes neb yn llai tebyg o gael gwir olwg na'r sawl sydd yn ymffrostio yn eu llygadgraffder. Dywedodd Crist wrth y Phariseaid, "eithr yn awr, meddwch chwi, 'Yr ydym ni yn gweled;' am hyny y mae eich pechod yn aros." Ond yr oedd Mair wedi ei dallu gan ddagrau cariad, a'r cariad byw yr hwn a sychodd ei dagrau, a ddadguddiodd iddi hi yn gyntaf o bawb, y Crist anfarwol. Pe na buasai hi mor awyddus am weled gweddillion difywyd yr Iesu, ni fuasai mor gynted wedi cael gweled y sylweddoliad byw. Gwell ydyw cael cariad byw at Grist marw na chariad marw at Grist byw. Y

mae'r cariad hwnw, beth bynag, yr hwn sydd yn ein cyfodi ni tua'r nefoedd yn gariad byw tuag at Grist byw, yr hwn sydd yn awr wedi esgyn at ei Dad ef a'n Tad ninnau, ei Dduw ef a'n Duw ninnau.

Y mae llawer wedi cyfranogi o gyfeiliornad Mair, heb fod ganddynt ei serch dwfn hi, yr hwn wedi hyny a'i galluogodd hi i weled ei Hiachawdwr ar olwg wahanol i'r hyn y disgwyliasai. Yn yr amser gynt 'roedd y *Crusaders* yn tybied fod sylweddolion eu crefydd yn cael eu dianrhydeddu, pan oedd y Bedd, yn Jerusalem, yn llaw y Mahometaniaid. Eu gofid oedd, nid fod y corph wedi myned ymaith, ond fod yr ogof lle bu'r corph hwnw unwaith yn gorwedd wedi ei gau oddiwrthynt." "Hwy a ddygasant ymaith fedd yr Arglwydd!" oedd eu llef; ac oes ar ol oes y bu rhyfelwyr ffyrnig yn ymladd am ei fedd ef yr hwn a fu farw i ladd ein gelyniaethau—i gymmodi dynion a'u gilydd ac a Duw.

Y mae disgybl y Pab yn credu mai corph a gwaed Crist yw'r bara a'r gwin sydd wedi ei gyssegru yn yr Offeren gan yr offeiriad: a phan y byddo'r Protestaniaid yn dywedyd nad yw ein Iachawdwr ddim yn bresennol yn gorphorol yn y Cymmun, y mae dysgybl y Pab yn llefain allan gyda Mair—"Hwy a ddygasant fy Arglwydd ymaith!"

Y mae'r Ymneillduwr yr hwn sydd yn ymwrthod â darluniau o'r croeshoeliad yn ei gapel, ac yn tybied ei fod yn beth ofergoelus i gasanu llun y groes, yn teimlo fod arno angen am ddarluniadau mewn geiriau yn y pregethau a glywir ganddo; ac oni chlyw efe lawer iawn am y Crist croeshoeliedig, y mae ei galon yn oeri. Ond pan bregethodd Paul athrawiaeth y groes, ni wnaeth hyny i foddloni teimladau crefyddol ei wrandawyr; yr oedd y groes y pryd hwnw yn cael ei ystyried yn dramgwydd ac yn ffolineb. Yr ydym ni yn gwerthfawrogi yr athrawiaeth hono megys yr ydym yn credu ei fod ef yn ei gwerthfawrogi. Etto ganad pa mor bwysfawr bynag ydoedd *marwolaeth* Crist, dywed Paul,—"mwy o lawer wedi ein heddychu, y'n achubir trwy ei *fywyd* ef."

Ac y mae llawer yn chwilio Crist ymhlith credöau marw, a ffurfiau a defodau marw, y rhai a ymddangosent unwaith fel yn cyssegr-gadw rhywbeth oedd yn dwyn tebygolrwydd iddo ef, ac y maent yn cael eu harswydo a'u gofidio yn fawr wrth gael fod y gàreg wedi ei threiglo oddiar y bedd,—y gareg a dybient hwy fuasai yn ei gadw yn ddiogel, a dywedir wrthynt nad yw yr hyn a ddisgwyliant hwy am dano ddim yno bellach.

Y mae yn ddichonadwy i "gorph o dduwinyddiaeth" marw i gael ei guddio rhagom, a phan yr elom lle yr ydym yn disgwyl ei weled, a methu ei gael, gallwn wylo a gwrthod cymmeryd ein cyssur. Y mae yn ddichonadwy i ni i fod ym mhresennoldeb y Gwirionedd byw, ac etto ffaelu a'i addef; a gofyn iddo yn anobeithiol, am ddywedyd wrthym pa le y mae wedi gosod ei gorph marw ei hun a gerid genym, fel y gallom ei gymmeryd a'i gyweirio â pheraroglau! Ond pan byddo genym ffydd fywiol yn y bywiol Dduw, cawn weled yn amlwg y profion o'i Fod ef, yn yr hyn sydd wedi ei ddadguddio gan y gwyddiant *(science)* hwnw yr hwn sydd yn ymddangos mor ddinystriol i'r rhai sydd yn glynu wrth y "lythyren farw." Pan byddo genym ffydd ysbrydol mewn Iachawdwr ysbrydol, cawn ei weled ef pan byddo ereill yn galaru oherwydd ei absennoldeb; a phan y byddom yn gwrando gwersi o foesoldeb Cristnogol, ewyllys da Cristnogol, a duwioldeb Cristnogol—lle dysgir i ddynion i garu eu gilydd, a'r Tad—fe amlyga Crist ei hunan i ni yng ngeiriau y bywyd tragwyddol.

MAWL-GAN MRS. PERKINS, GARNANT HOUSE, CWMAMAN.

Cyd-fuddugol yn Eisteddfod Cwmaman, Gorphenaf 1*af*, 1863.

CWMAMAN! Cwmaman! anwylaf Gwmaman!
Mor ddedwydd yw'th ddeiliaid—paradwys y bardd;
Rhaiadrau dy nentydd ar wely o arian,
Sy'n sisial tangnefedd—holl anian a chwardd.

Rhagfurir o'th amgylch gan fryniau trag'wyddol,
Neu gedyrn golofnau, arddcrchog a chu;
Dyrchafant eu penau i'r nefoedd serenol,
Eu brenin coronog yw'r hen "Fynydd Du."

Ac O! 'r fath drysorau geir yn dy goluddion,
Ac nis di-ysbyddir am oesau tra maith;
Mor hwylus yn cerdded *bu* 'th weithiau glo mawrion,
Ac O! na chychwynent hwy etto'r ail waith.*

Wyt hefyd yn enwog am feirdd a llenorion,
Ti ge'st yr anrhydedd o'u gwylio'n eu cryd;
Hawdd gelli ymffrostio yn amlder dy ddewrion,
A pharant yn anwyl trwy oesau y byd.

Ah! magodd dy ddwyfron, ddyngarwyr hael galon,—
Dy ferched ŷnt ddiwyd, cariadus a glân;
Y blod'yn disglaeriaf yn mawredd dy goron,
Yw'r hael Meistres Perkins, hoff destun ein cân.

Ei llaw gysegredig gyfrana yn helaeth,
Mae'n hoff gan ei henaid i weini bob awr;
Mae hi megys noddfa i deulu'r gym'dogaeth,
Darlunio'i hael garedd sy'n orchwyl rhy fawr.

Mae'n gamwedd er hyny, â'r haelaf o wragedd,
I beidio cofnodi 'r hyn *wyddom* sydd wir
O'i rhinau: mae'n sefyll ar binacl mawredd,
A'i henw'n anrhydedd i ferched ein tir.

Gofyner i luoedd o dlodion Cwmaman,
Pwy ydyw eu nhodd-wraig pan ddelo'r dydd blin;
Yr atteb a glywir yn adsain o bob-man,
"Neb fel Meistres Perkins, mae'n orlawn o rin."

Yn amser y gŵyliau mae'n rhanu gwlaneni,—
Y plant gaiff eu gwala o deisien a thê;
Mae 'i bwrdd wedi 'i hulio—a hithau yn gweini,
Yn llwythog o roddion aiff pawb tua thre'.

Mae'n ennill cymeriad, a pharch, ac anrhydedd,
Anwylach, anwylach, mae'n myned bob dydd;

* Mae dau neu dri o'r prif weithiau wedi aros braidd yn hollol er ys dwy flynedd, yr hyn sydd wedi achosi llawer o galedi yn y lle, ynghyd a thawlad i ganoedd o'r trigolion.

Tân cariad sy'n enyn ar allor ei rhinwedd,
Ni ddaeth ei thirionach o ddinas Caerludd.

'Rwy'n cael fy nhueddu i gredu'r ddihareb,
"Na fu erioed golled heb enill i rai;"
Gwyr Llundain gadd golled o dori yr undeb:
Trodd hyny yn elw i Gymru'n ddiau.

Ymserchodd ei henaid yn "hen wlad y cenin,"
Ymglymodd ein hoffus ddefodau a'i bron;
Er pan ddaeth i Gymru, mae llwydd yn ein dilyn,
Priodas fendithiol a dedwydd oedd hon.

Haelfrydedd flodeua'n nodweddion ei bywyd,
Ar wneuthur daioni ymglymodd ei serch;
Mae'n cadw i fyny 'i chymeriad yn hyfryd,
Ni wisgwyd disgleiriach erioed gan un ferch.

Ein haeres dry allan yn llon a chalonog,
Ymwel â bythynod holl dlodion y lle;
Rhydd win i'r diffygiol, a bwyd i'r newynog,
Ac hefyd cyf'rwydda hwy'n llwybrau y ne'.

Ar gledr ei dwylaw argraffwyd tosturi,
Ar lechau ei chalon yn ddyfnach fyth mae,
Ac ar y cystuddiol mor dirion mae'n gweini,
Er mwyn eu gwaredu o'u hingoedd a'u gwae.

Ei llwybr sydd uniawn—mae'n elyn i drawsedd,
Hi wrendy'r amddifad yn adrodd ei gwyn;
Fel Dorcas, mae'n dyner, a llawn o haelgaredd,
Ei holl ymddiddanion sy'n orlawn o swyn.

O ddwylaw y Mawredd derbyniodd ei golud,
Mae'n rhoddi o'r benthyg a gafodd, i'r tlawd;
Mae'n rhodio ar lwybr dyledswydd ei bywyd,
Yn addurn i grefydd ei Phriod a'i Brawd.

Ni ŵyr am *bartiaeth*, na rhagfarn sectarol,
Mae'n rhydd fel yr awyr anadla mor fwyn,
Er hyny 'does nemawr yn fwy egwyddorol,
Dros grefydd ein Harglwydd, mawr sêl mae yn ddwyn.

Y nefoedd a'i cododd i'w safle oruchel,
Rhagluniaeth sy'n gwenu'n ei gwyneb, o'r cryd,
Er hyny mae mor ostyngedig âg angel,
Nid pethau daearol sy'n denu ei bryd.

Tra Aman, a'r Garnant droellawg, yn llifo,
A'r awel yn chwareu ar danau y dail;
A phan bo ei llwch yn y bedd yn malurio,
Bydd coffa yn barchus am Dorcas yr ail.

BRODOR, Sef JOB DAVIES, Llandybie.

JOGUTH CHUNDER GANGOOLY.

(Parhad o tudal. 226.)

Yr oedd yr offeiriad yn serchog iawn, ac addawodd iddo bob help a allai. Ceisiodd ganddo ddod i'r gwasanaeth saith y boreu i'w eglwys ef. Cododd Joguth yn foreu, fel y gallai fod yno mewn pryd, oblegid yr oedd ganddo chwe milldir i gerdded. Cafodd ei foddloni yn fawr yn rai rhanau o'r gwasanaeth, ond etto cwrddodd a'r hen ofid! Clywodd etto am "Dduw'r Mab" a "Duw'r Ysbryd Glân." Deallodd yr offeiriad ei ofid, a rhoddodd iddo "*Gatecism*," ond "yn anffortunus" meddai Joguth, "oherwydd cyflwr neilldduol fy meddwl, gwnaeth hwn y peth yn waeth fyth." Yn hwn y darllenodd am 'wir Dduw o wir Dduw,' 'cenhedledig nid gwneuthuredig,' 'un yn dri, tri yn un.' Yr oedd y gair 'Trindod' hefyd yn un nad oedd efe ddim wedi digwydd ei weled yn y Testament Newydd. Dywedodd yr offeiriad fod "y pethau hyn uwchlaw amgyffred dyn, ac er eu bod yn ymddangos yn groes ac yn wrthun, nad o'en nhw ddim felly mewn gwir." Nid oedd hyn yn ei foddloni, nid oedd yn credu y buasai rheswm yn gwrthddywedyd yr hyn oedd gan Ddadguddiad i'w ddywedyd. "Y mae Dadguddiad dan ddyled mawr i reswm, hebddo nis gallai gyflawni ei amcan. Rhoddodd Duw Ddadguddiad i *ni*, y rhai ydym wedi ein donio a galluoedd rhesymol, fel y gallem holi ac ystyried a derbyn, ei gynnwys. Rheswm ynte, yw'r allwedd i agor Dadguddiad." Cafodd ei siomi yn fawr fod cynnifer o athrawiaethau gwrthun yn myned dan enw Cristnogaeth. Yr oedd wedi gadael Hindwaeth, oherwydd y pethau gwrthun oedd ynglŷn â hi, ond wele'r hen gyfeillion yma etto gydag ef. "Beth 'na i nawr" oedd ei ofyniad pwysig yn bresennol; "ai myned yn ol at dduwiau a duwiesau fy nhadau? Yr oeddwn yn teimlo cywilydd oherwydd y *catecism*, ac felly cuddiais ef ymhlith fy llyfrau, fel nas gallai gwrthwynebwyr ei weled a gwatwar Cristnogaeth o flaen fy wyneb. Heb fod yn faith wedi hyn, digwyddodd nai i mi, crwt tair-ar-ddeg oed, i agor yr hen gatecism a darllen y 'credoau.' Gwenodd a dywedodd, "Wncwl, pa lyfr ydy hwn?" "Catecism yw; welwch chi ddim? Mae'n cynnwys Erthyglau Ffydd! "Ba ffydd, wncwl?" "Y ffydd Gristnogol" meddwn innau. "Peidiwch dweyd! Wel, wel! A ydy'r Testament Newydd ddim yn ddigon i hyny? Wele yma'r wyf yn darllen fod Crist yn Dduw ac yn ddyn hefyd—fod Duw yn Un, ac etto yn dri pherson. A ydy'r Saeson yn credu pethau felly?" "Ydynt yn sicr," meddwn innau. Cauodd y bachgen bach y llyfr a dywedodd, "'Nwncwl, 'dalla' i ddim llai na gwenu wrth feddwl nad yw'r Saeson, y rhai ydynt yn gyru ager-gerbydau ac yn adeiladu ager-longau, ac yn danfon negesau trwy'r *electric wires*, ddim yn gwybod y gwahaniaeth rhwng dyn a Duw, rhwng un a thri."

"Beth 'na i nawr"—pwngc pwysig ydoedd. 'Roeddys wedi dweyd wrtho nas gallai efe fod yn Gristion heb gredu Trindod. Yr oedd yntau wedi gwrthod y Drindod unwaith ac nid oedd yn bossibl ganddo ei derbyn etto. Pa ryfeddod ei fod yn gofyn, beth 'na i nawr? Cwrddodd a chyfaill yr hwn oedd yn perthyn i gymdeithas o *ddeistiaid*. Penderfynodd uno â hwy. Ond er iddo ddyfod i gyssylltiad a llawer iawn o ddynion rhagorol yn eu plith, methodd a gwneuthur ei hunan gartref gyda nhwy. Yr oedd yn teimlo nas gallai efe ddim byw ar fwyd sych yr anghredinaeth yma. Wedi bod yng nghwmpeini gwresog a charuaidd Crist, yr oedd yn teimlo pob man yn anialwch hebddo ef. Yr oedd B. R. Bannerjea yn ddyn

rhagorol iawn. Yr oedd, meddai Joguth, yn ymgorpholaeth o eirwiredd a chariad a gwirionedd—yn ddyn addfwyn—yn ddyn o ddysg—o gyfoeth ac o sefyllfa uchel mewn cymdeithas—yn gymmwynasgar—yn fwyn ac yn ddiduedd—yn rhoddi elusen mor bell ag oedd yn bossibl yn unol â gorchymyn Crist, gan beidio gadael i un law wybod beth oedd y llall yn ei wneud. Ond er mor rhagorol oedd, er mor ganmoladwy oedd ei weithredoedd, yr oedd yn amddifad o'r dewrder moesol hwnw yr hwn nis gallai neb ond 'Anfonedig' Duw ei roddi. Er cymmaint y rhagoroldeb a welodd Joguth ymhlith y cyfeillion yma, yr oedd ei galon o hyd yn rhedeg at Grist. "Nis gallaswn," meddai, "fyned oddiwrtho, nac anghofio ei eiriau caruaidd a gwerthfawr, y rhai a'm harweiniasant i allan o ofergoeledd. A oes neb yn credu fel yr wyf fi, mai un *yn unig* yw Duw, ac mai Crist yw y goreu o athrawon crefyddol a welodd y byd erioed neu a wel byth, mai efe yw Anfonedig a Mab henaf ein Tad Cyffredinol? Os nad oes—ni waeth; safaf yn unig, a rhoddaf fy help i'r byd mor bell ag y byddaf yn alluog." Tra'r oedd efe yn ymresymu fel yma, clywodd gan ei gyfaill Baboo C. C. S. am ddyfodiad y cenhadwr Undodaidd Mr. Dall i Calcutta, a bod ei olygiadau yn gwahaniaethu oddiwrth olygiadau y cenhadwyr ereill. Nid oedd yn gallu deall yr ymadrodd *Cristion Undodaidd*, os mai Deistiaid ac nid Cristnogion yw pawb sydd heb fod yn credu Trindod. Aeth ef a'i gyfaill i wrando Mr. Dall, ond yr oedd eu Saesneg yn rhy brin i wneuthur llawer o lun o'r bregeth. Cawsant fenthyg amryw lyfrau, ac un o'r pethau a ddysgodd Joguth oedd hyn—"Gyfaill, y mae miloedd yr ochr draw i'r Atlantic yn coledd yr un syniadau am Dduw a chwithau, felly nid ydych yn unig. Ein cymdeithas a'n cydymdeimlad eiddo chwi ydynt." Nis gallai fynd i wrando Dall yn rheolaidd oherwydd amryw resymau. Yr oedd ganddo saith milldir o ffordd, heblaw croesi yr afon Gunga, yr hyn oedd yn gwneuthur y siwrne yn anghyfleus iawn, ond y rhwystr mwyaf oedd ei fam. "Nid w i ddim," meddai hi wrtho; "yn beio nac yn cashau y Cristnogion. Boed iddynt ddilyn eu harferion eu hunain yn ffyddlon. Iesu Cisto yw eu duw hwy; boed iddynt ei addoli, 'rwy'n foddlon iddynt. Fel Brahminiaid ni ddylem ni ddim cashau duwiau cenhedloedd ereill. Etto 'dallwn ni ddim eu haddoli, nid ein duwiau ni ydynt, y mae genym ni dduwiau ein hunain. * * * Pa neges sy genych yn Calcutta, os ewch chwi yno ar y Sul, cerddwch heb eich brecwast." Felly er cymmaint oedd chwant Joguth i glywed Dall, nis gallai fynd bob Sul, a phan elai, yr oedd yn gorfod myned heb ei frecwast. Ac wedi dod 'nol tua phedwar neu bump yn y prydnawn yn lle rhoddi groesaw iddo, yr oedd ei fam yn myned allan o'r ystafell ac yn wylo am ei phlentyn colledig. Dan y fath amgylchiadau, 'dyw e ddim llawer o ryfeddod fod mor lleied o Hindŵaid yn derbyn Cristnogaeth. Gwnaeth Joguth ei hunan mor ammhoblogaidd, ac yr oedd dynion yn ei ofni gymmaint fel na chaniatäent ar un diben i'w plant fynd gydag ef i Calcutta, rhag iddo wneud Cristnogion o honynt. Yr oedd ynddo benderfyniad i orchfygu pob anhawsderau, ac i gael gafael mor bell ag y gallai yn y gwirionedd. Llwyddodd i gael cynnulliad o un-ar-hugain o fechgyn *high-caste*, a phob un o honynt yn gwybod rhyw ychydig o Saesneg. Ac wedi methu cael un lle cyfleus i'r pwrpas yr oeddynt yn arfer cwrdd a'u gilydd mewn rhyw ardd, ymhell oddiwrth y Brahminiaid, ac yno yr oeddynt yn mynd trwy eu gwasanaeth goreu gallent—yn darllen, yn canu ac yn siarad am Dduw.

Wrth ddarllen y Testament Newydd nid oedd Joguth ddim wedi breuddwydo meddai efe am yr athrawiaethau canlynol :—athrawiaeth y Drindod—y llwgr gwreiddiol—a chospedigaeth ddiddiwedd yn uffern—ac nid yw yn eu credu nac yn meddwl fod dim a fynont a gwir grefydd, am eu bod yn ymddangos iddo ef yn afresymol ac yn anysgrythyrol. "Y mae synwyr cyffredin," meddai, "yn dysgu i ni mai un yw un yn wastad, ac mai tri yw tri, a'i bod hi mor wrthun i dderbyn y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân fel un, ag a fyddai i ddywedyd fod Iago a Mair ac Elen yn un."

Y mae y Drindod Hindwaidd yn ol ei farn ef yn fwy rhesymol, cyson, a philosophyddol na'r Drindod Grist'nogol, ac ni fyddai yn ddoeth yn ei olwg ef i wrthod y blaenaf a dewis yr olaf. Ond darfu iddo wrthod y ddwy. Y mae esboniad Joguth ar rai adnodau dyrys yn darawiadol ac yn gywrain iawn. Rhoddwn un er enghraifft :—

"Yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad."

"Gofynwch i blentyn bach Hindwaidd saith neu wyth mlwydd oed am ddangos tŷ ei dad i chwi. Fe ddywed wrthych, cerddwch ymlaen yn gymmhwys ffordd yna nes deloch at ystôr-dŷ, wedi hyny trowch ar y llaw chwith, cerddwch ymlaen dipyn bach, a chwi a welwch bren palmwydd, a phan welwch chwi y pren palmwydd chwi welwch dŷ fy nhad. A ydy e'n meddwl dweyd wrth hyny mae'r balmwydden yw tŷ ei dad? Na 'dy ddim. Felly yn yr ymadrodd "Yr hwn a'm gwelodd i a welodd y tad," nid oes neb sydd yn gyfarwydd a ffordd y Dwyreinwyr o osod allan eu meddyliau yn meddwl ei fod yn gosod allan mai Crist yw Duw. Y mae palmwydden y plentyn Hindwaidd mor *agos* at dŷ ei dad, fel os gwelwch yr un, 'dallwch chi ddim llai na gweled y llall. Fe ddangosodd ein Meistr anwyl y fath rasusau nefol yn ei fywyd, fel nad oedd yr un cabledd iddo i ddywedyd, 'Os ydych wedi fy ngweled i, yr ydych wedi gweled fy Nhad.'"

Am athrawiaeth y llwgr gwreiddiol, dywed Joguth, "Yr wyf yn cwbl gredu fod y fath athrawiaeth ofnadwy ag sydd yn galw plentyn y Goruchaf yn greadur cwbl lygredig—heb ddim daioni ynddo, yr un na ddylai fod yn rhan o gredo un dyn byw. Y mae yn digaloni dyn. Yn gosod mynydd ar ei ffordd, yn gwanhau ei ffydd yn y Tad cariadlawn, pan dywedir wrtho fod cyfiawnder diduedd yn ei wneuthur yn attebol am yr holl bechodau y crewyd ef i'w cyflawni. Gwn fod y rhai sydd yn credu yr athrawiaeth hon yn dywedyd fod yr iawn a wnaed gan Grist dros ein pechodau ni, wedi boddloni cyfiawnder tragywyddol,—fod gwaed yr Oen wedi golchi ymaith eu pechodau. Caniataer un gwrthuni a daw eraill o'r un natur i'w gadarnhau." "Heb yr Iawn fe syrthia'r 'llwgr gwreiddiol' i'r llawr, ac ni fyddai neb yn ystyried ei hunan yn berffaith lygredig. Beth ddaeth o'r miliynau eneidiau hyny a anwyd yn bechaduriaid llwyr ac a fuont farw cyn tywalltiad gwaed yr Oen. * * * Fe ddywed rhai feallai fod Crist wedi marw dros bawb; dros y rhai a fuont byw cyn iddo wneyd ei ymddangosiad ar y ddaear yn gystal a'r rhai fu byw wedi'n. Ond wele drwbwl etto, os wyf fi yn deall yr athrawiaeth yn iawn. Nid yw fod Crist wedi aberthu ei hunan drosom ddim yn ddigon o hono ei hun, i olchi ein pechodau ymaith. Y mae yn rhaid i ni i gredu, er derbyn lles oddiwrth ei farwolaeth. Os felly, y mae miloedd hyd yn oed heddyw, heb gael cyfle i glywed am Grist, ac o ganlyniad nis gallant gredu ynddo ef nac yn ei iawn grasusol. Dywed Paul,—"Pa fodd gan hyny y galwant ar yr hwn ni chredasant ynddo? A pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano?" Nid yw yr athrawiaeth yma yn athraw-

iaeth ysgrythyrol. Dywed yr Ysgrythyr fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw. Ymha ystyr ynte? Ai llun ei berson? Nage ddim. Yr atteb mwyaf rhesymol yw, delw ei natur, ei ysbryd, ei gariad; oblegid yr ydym yn canfod rhyw ychydig, fwy neu lai, o'r grasusau yma mewn dyn. * * * Y mae Duw yn anfeidrol bur, a sanctaidd, a pherffaith yn ei natur, a pha fodd y gall ei ddelw fod yn berffaith lygredig? Ac os yw dyn felly, pa reswm oedd yng ngorchymmyn Crist, 'Byddwch gan hyny berffaith fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.' Gwaith caled fydd i ni i ddeall fod delw y Sancteiddrwydd perffaith yn gwbl lygredig, ac y gall creaduriaid cwbl lygredig ddyfod yn berffaith fel eu 'Tad yn y nefoedd.'"—*(Fw barhau.)*

Y DDAEARGRYN.

Rhwng tri a phedwar ar gloch boreu dydd Mawrth, y 6fed o Hydref, (pan y dylai pob dyn onest fod yn y gwely) cafodd miloedd o drigolion ein hynys fechan, a'r nad oeddynt yn digwydd bod yn rhy drwm dan ddylanwad Mr. Cwsg, eu dychryau yn fawr gan Ddaeargryn. Llawer oedd y dychymmygion, beth allai'r mater fod—a oedd lladron yn y tŷ?—a oedd rhywun wedi taflu careg rhwng cocasau'r ddaear?—neu ynte a oedd y ddaear wedi taro yn erbyn y lleuad neu'r haul? Yr oedd y gwelyau wedi siglo, y llestri wedi taro yn erbyn eu gilydd, y clychau wedi canu, a chalon pob un oedd yn neffro fel wedi ei gwthio i dwll ei wddf. Ond wele, wedi dyddio o honi yr oedd pob peth yn edrych fel arferol—y lleuad mor siriol ag erioed, a'r haul yr un modd, a phob mynydd a'i ben uchaf i fyny! Yn sicr gallasai pethau fod yn waeth. Cafodd y rhai oedd wedi argyhoeddi eu hunain mai 'breuddwyd oedd' eu dwyn i gredu yn awr nad breuddwydio oedd pawb wedi wneud—a chyttunwyd mai daeargryn oedd wedi bod.

Ar y 9fed o Dachwedd, 1852, dichon fod llawer o ddarllenwyr yr Ymofynydd yn cofio am hyny, fe siglwyd cawell Ynys Prydain o'r blaen. Nid oes dim hanes fod llawer o niwed wedi cael ei wneud gan ddaeargrynfäau yn yr ynys yma erioed, ac etto bydd yn sŷn gan lawer i glywed fod hanes yn cofnodi dim llai na 255 fel wedi cymmeryd lle ynddi i gyd. O'r rhai hyn cymmerodd 139 le yn Scotland, 30 yng Nghymru, &c. Yn 1580 cwympodd rhanau o eglwys St. Paul trwy nerth daeargryn. Ond nid yw hyn ddim at beth mae daeargrynfäau yn wneud mewn manau ereill. Clywsom son lawer am nerth Samson a Goliath, am nerth y llew a'r elephant, ac yn ddiau yr oeddynt yn nerthol yn ol eu rhyw; y mae y *Great Eastern* yn nerthol (poed gwell lwc iddi) i gario yn ei chrombil y fath luoedd o ddynion, ond nid yw y *Great Eastern* mewn ystorom ar y môr ond megys llygoden dan bawen cath fach; y mae'r gwyntoedd yn nerthol i ddadwreiddio coedydd ac i osod tai yn wastad a'r llawr; y mae'r môr yn nerthol i gario *icebergs* (mynyddau o iâ) ar ei gefn, y rhai ydynt weithiau yn 300 troedfedd o uwchder oddiar y wyneb a thua saith cymmaint a hyny tano (2400 o droedfeddi); ond y mae nerth y ddaeargryn tuhwnt i ddychymmyg dyn, nid yw nemawr byth yn ymfoddloni ar lai nag ysgwyd ychydig gannoedd o filldiroedd. Ysgwydodd yr un ddiweddaf drigolion Gwlad yr Haf, Morganwg, Le'rpwl, &c. yr un pryd, ganad faint yn rhagor; ond yr oedd hyny yn gymmedrol iawn iddi hi.

Y mae'r ddaeargryn (cryniad y ddaear) yn cael ei achosi gan y tânau, yr anweddau a'r nwyau yng nghrombil y ddaear; canys y mae canol-barthau'r ddaear yn fôr berw o dân, ac y mae'r berwlif yma, wrth weithio ei ffordd i

fyny yn erbyn y crwstyn arwynebol, yn peri iddo godi a syrthio fel tonau'r môr. Y mae'r tonau yn ymwasgar yn gylchau o ganol-bwynt y cyddarawiad yn gyffelyb i'r hyn a welir wrth daflu careg i lyn. Y mae daeargryn bron yn wastad yn cymmeryd lle cyn byddo un o'r mynyddau tanllyd yn adfywio. Yn y flwyddyn 63 o oed Crist gwnaeth un ddifrod yng nghymmydogaeth Vesuvius, ac ymhen 16eg o flynyddau dechreuodd Vesuvius chwydu, (hyd hyny ni wyddai neb mai mynydd tanllyd ydoedd, er bod heolydd Pompeii wedi eu gwynebu â *lava*), claddwyd Pompeii dan y lludw a'r golosg, a Herculaneum dan fôr o laid neu laca, a llawer o'u trigolion wrth bob tebyg gyda nhwy. Tua chan mlynedd yn ol, wrth agor ffynnon yn Portici gerllaw Naples, daethpwyd ar draws *Theatre* Herculaneum tua 60 troedfedd dan y ddaear, wedi hyny daethpwyd at dai, golchfäoedd (*baths*), cerfddelwau, a mwy dyddorol na'r cwbl llyfrgell yn llawn o lyfrau, a'r rhai hyny etto yn ddarllenadwy. Ni chladdwyd Pompeii mor ddwfn : gellir rhodio trwy'r heolydd yno yn awr a myned i mewn i'r tai, a gweled ysgerbydau dynion fei ar fedr ffoi o'r distryw. Y mae'r ddaeargryn yn llawer mwy dinystriol pan y byddo yn ffaelu cael *vent* trwy enau rhyw fynydd tanllyd. Y mae'r un a gymmerodd le Tach. 1, 1755, yn enghraifft o hyn. Gwasgarodd tonau hon dros saith can mil o filldiroedd sewâr. Teimlwyd hi dros y rhan fwyaf o Ewrop, o Africa a North America. Cafodd pob llyn ym Mhrydain eu bwrw o'u gwelyau yn gystal a llynoedd mawr Canada, yn gyffelyb i'r hyn a wna dwr mewn sowser wrth roi ergyd iddo. Cyrhaeddodd y dòn gyntaf dref Lisbon am 35 munyd wedi naw yn y boreu, ac ymhen chwe munyd yr oedd yr holl dref wedi ei dinystrio, a 60,000 o ddynion wedi eu gyru i dragwyddoldeb. Mewn un dref yn Morocco lladdwyd o 8 i 10 mil o ddynion ar yr un amser. Hon feallai yw'r ddaeargryn fwyaf nerthol a mwyaf dinystriol sydd a son am dani mewn hanes. Ar y 4ydd o Chwefror, 1797, cymmerodd daeargryn fawr le yn Quito, pryd y claddwyd Riobamba a Quero a threfydd ereill dan y mynyddau, ac ymhen ychydig funydau distrywiwyd tua 30,000 o fywydau. Ar y 5ed o Chwefror, 1783, y digwyddodd daeargryn Calabria, yn hytrach dechreuodd y pryd hwnw, canys gellir dweyd iddo barhau am 4 blynedd. Cymmerodd 949 o ysgwydiadau (*shocks*) le yn 1783, ac o'r rhai hyny yr oedd 501 yn nerthol iawn : yn y flwyddyn ganlynol teimlwyd 151, a 98 o honynt yn rhai nerthol. Gyda'r ysgwydiad cyntaf distrywiwyd tref Oppido a phob tref a phentref o fewn cwmpas dwy filldir ar hugain. Teimlodd holl Calabria ei ddylanwad ac hyd yn oed Messina yr ochr draw i'r môr, a rhan fawr o Sicily. Yr oedd rhai o lech-loriau Oppido wedi eu troi wyneb i waered, cafodd llawer o'r tai eu llyngcu yn gorphorol. Yn rhai mànau agorodd y ddaear ei safn yn ddychrynllyd. Yn Terra Nova cafodd dernyn o graig 200 troedfedd o uwchder a 400 o dryfesur ei gludo 4 milldir lawr i'r cwm. Bu farw i gyd 40 mil o ddynion oddiwrth y daeargrynfäau, ac 20 mil yn rhagor o newyn ac o achos y tawch afiachus oddiwrth gynnifer o gyrph meirw.

Pe byddai amser a gofod yn caniatau gellid dweyd llawer o bethau dyddorol iawn am ddaeargrynfäau, ond y mae un gofyniad yn codi yn naturiol ; p'am y mae elfen m rddinystriol yn cael ei ganiatau gan Raglunaeth ddoeth a da ? Os ydym yn addef Rhagluniaeth, yn ddoeth ac yn dda, gallwn benderfynu fod doethineb a daioni yng ngweithiad hyd yn oed yr elfen ddinystriol hon. Y mae'r ystorom a'r fellten yn aml yn ddinystriol iawn, ar yr un pryd y maent yn puro yr awyr ac yn ei wneud yn addas i

fywydoli natur, a thrwy hyny y maent yn arbed dynoliaeth rhag feallai myrdd o glefydau nas gwyddent am danynt. Y mae elfenau natur yn barhaus yn gwrthweithio eu gilydd, ac felly yn cadw'r *balance of power* rhyngddynt, yn peri fod i bob un o honynt ei le priodol. Yr oedd yr hen fobl yn arfer dywedyd nad oedd dim yn talu eu gilydd yn well na gwlybyn a sychyn; os felly ar ol yr hir wlybaniaetb presennol y mae genym le rhesymol i ddisgwyl am dipyn o sychder etto, er cadw y cyfartaledd. Yr un peth y mae gyda phob peth arall. Y mae daeargrynfäau yn gwrthweithio dylanwadau pwysig iawn. Y mae'r môr yn barhaus yn treulio ac yn bwyta i mewn i'r tir, ac yr ydym yn barhaus yn gweled

"Yr afonydd
Yn cario'r mynyddau'n eu breichiau i'w gosod yng ngwaelod yr eigion."

Y mae'r Ganges bob dydd trwy'r flwyddyn yn cario i'r môr swmp un o beiramidau'r Aipht, ac y mae afonydd mawr yr Amerig bob un o honynt yn cario swmp mynydd diogel i'r môr mewn blwyddyn. Y mae pob afon fach yn gwneud ei rhan i fynd a gwyneb ein daear ni bant, felly oni bai rhyw nerthoedd gwrthweithiol, beth ddaethai o honom? Y mae Rhagluniaeth yn gofalu am danom ac yn goruwchlywodraethu y cyfan er daioni. Os yw'r môr yn ennill tir yn rhai mànau y mae'n colli tir mewn manau ereill, ac y mae ynysoedd newyddion yn gwneuthur eu hymddangosiad ac yn dyfod bob yn dipyn yn drigfanau i ddyn ac i anifail. Ar un nos, (Tach. 19, 1822) ac fel ar un ergyd, cododd traeth Chili am tua chan milldir o ffordd o ddwy i saith troedfedd yn uwch nag oedd o'r blaen. Y mae peth cyffelyb wedi cymmeryd lle lawer gwaith ac mewn llawer man. Y mae'r ddaeargryn fel yma, yn rhyw fan neu gilydd wrth ei gwaith yn barhaus fel yr afonydd, 'does braidd ddiwrnod heb ddaeargryn yn rhyw le. Nid ymhob man y mae y cyfnewidiadau yma yn cymmeryd lle ar unwaith. Y mae'r Baltic, Norway, Sweden a Lapland yn codi yn raddol tua dwy droedfedd bob 100 mlynedd. Felly, pa un ai yn raddol ai ynte ar unwaith y byddo'r ddaeargryn yn gwneuthur ei gwaith, y mae'n ei wneuthur dan lywyddiad Bod doeth a da, yr Hwn sydd yn llywodraethu ac yn goruwch-lywodraethu pob peth, ac yn peri fod pob peth yn cydweithio i ddwyn ei amcanion oddiamgylch.

"From seeming evil still educing good."

Hydref 17, 1863. TITAN.

DR. FRANKLIN.

FE dderbyniodd Dr. Franklin unwaith wers dra defnyddiol gan yr hybarch Dr. Cotton Mather, yr hon a adrodda fel hyn mewn llythyr at Mr. Mather, ei fab:—"Y tro diweddaf y gwelais eich tad ydoedd yn y flwyddyn 1724. Pan oeddwn yn ymadael âg ef daeth gyda mi i ddangos ffordd ferach allan o'r tŷ, trwy fynedfa gul, ar draws pa un yr oedd trawst isel. Yr oeddym yn parhau i siarad wrth fyned. Yr oedd ef o'r tu ôl i mi, a minau yn lled droi fy mhen tuag ato, pan y gwaeddai efe yn sydyn, "Plygwch, plygwch!" Ni ddeallais i ef hyd nes tarewais fy mhen yn erbyn y trawst. Yr oedd efe yn un na adewai i un cyfleusdra i gyfranu addysg byth basio heibio heb ei ddefnyddio. Efe a ddywedodd wrthyf, 'Yr ydych chwi yn ieuanc, ac y mae y byd o'ch blaen: dysgwch blygu wrth fyned drwyddo a chwi a osgöwch lawer cnoc caled.' Bu y wers yma a gurwyd fel hyn i fy mhen, o ddefnydd i mi lawer gwaith ar ol hyny; a byddaf yn aml yn meddwl am dani wrth weled balchder yn cael ei ddarostwng, ac anffodion yn cyfarfod dynion trwy gario eu penau yn rhy uchel." DARLLENWR.

ENWOGION SIR ABERTEIFI, &c.

Y Parch. Evan Evans, (Ieuan Brydydd Hir, II); bardd a hynafieithydd enwog, a anwyd yng Nghymandref, plwyf Lledrod, yng Ngheredigion, yn y flwyddyn 1730. Pur debyg y buasai man genedigaeth ein gwrthrych yn hollol anadnabyddus i Gymru Benbaladr oni buasai ei eni ef yno. Ond bellach y mae y lle wedi cael enw na ddifodir mo hono tra iaith y *Brython*, oherwydd geni yr anfarwol Ieuan Brydydd Hir yno. Derbyniodd ei addysg foreuol yn ysgol ramadegol Ystradmeurig, yr hon oedd dan nawdd yr ysgolor a'r bardd penigamp Iorwerth Risiart, awdwr y "Caneuon Bugeiliol." Oddiyno symmudodd i Rhydychain, a chafodd ei dderbyn i goleg Merton yno yn y flwyddyn 1751. Yr oedd yn berchen etifeddiaeth fechan yng Ngheredigion, yr hon a drosglwyddodd i'w frawd ieuengach er mwyn cael modd i ymgynnal yn yr Athrofa. Wedi iddo ganu yn iach i Rydychain, hen ban dysgeidiaeth, gwasanaethodd fel Curad mewn amryw fanau yng Nghymru; yn Nhowyn Meirionydd, Llanberis, a Llanllechid, Caernarfon, a Llanfair Talhaiarn, yn Ninbych. Pan yn ymsefydlu yn Nhowyn, tynwyd ei serch a'i sylw at fachgenyn ieuanc o'r enw David Richards, o Benmorfa, gerllaw hen bentref tawel Tywyn, yr hwn yn ddiymwad, trwy offerynoliaeth Ieuan, a ddaeth yn fardd grymus ac enwog iawn, dan yr enw Dafydd Ionawr. Dangosodd Ieuan duedd foreu at yr awen Gymreig—a gynhyrfwyd ynddo feallai gan ei hen athraw awenyddol, Edward Richards. Daeth yn adnabyddus yn lled fuan i'r bardd a'r hynafieithydd gwladgarol, Lewis Morris (Llewelyn Ddu o Fon), yr hwn a goleddai farn uchel am ei ganiadau ieuengaidd; ac yr oedd gan Goronwy Owain feddwl mawr am dano fel bardd a llenor. Ymroddodd i goleddu a myfyrio llenyddiaeth Gymreig gyda diwydrwydd rhyfeddol; a threuliodd lawer o'i amser i adysgrifenu hen lawysgrifau Cymreig, er mwyn yr hyn yr ymwelodd â'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd Cymru, lle y gwyddai fod llawysgrifau. Bu yn derbyn blwyddalion bychain am amser oddiwrth Syr W. W. Wynn, a'r Dr. Warren, esgob Bangor, er ei gynnorthwyo i fyned ym mlaen yn y llafur hwnw—y rhai o'r diwedd a ataliwyd trwy ryw achos neu gilydd.

Yn y flwyddyn 1764, cyhoeddodd gyfrol o hen ganiadau Cymraeg, gyda chyfieithiadau Lladin, rhagymadrodd dysgedig—"Dissertatio de Bardis." Dyrchafodd y gwaith hwn ef yn uchel fel hynafieithydd a beirniad; ac o hwn y cafodd T. Gray sylwedd rhai o'i ganiadau mwyaf prydferth. Cafodd yr anrhydedd hefyd o ohebu ar bynciau llenyddol gyda'r esgob Percy, yr hwn a feddyliai yn uchel am ei alluoedd. Yn 1772 cyhoeddodd gân Seisnig a elwid—"The Love of our Country"—a chyhoeddwyd amryw o'i ganiadau Cymraeg yn y llyfr a elwir "Blodeu Dyfed." Yn 1776 cyhoeddodd ddwy gyfrol, 12plyg—un yn 280, a'r llall yn 326 o dudalenau, o bregethau Cymraeg, wedi eu cyfieithu o weithiau y Doctoriaid Tillotson a Doddridge, &c., y pregethau cyntaf a gyhoeddwyd yn gyfrolau yn y Gymraeg.

Ei gyfansoddiadau gorgampus ydynt y canlynolion—"Cywydd y Messiah," "Awdl y Nef," "Cywydd Marwnad Lewis Morris, Ysw." "Cywydd Hiraeth y Bardd am ei Wlad," ac ychydig "Englynion i Lŷs Ifor Hael," y rhai ydynt uwchlaw canmoliaeth; gwel "Blodeu Dyfed."

Gresyn y fath gam y mae yr Eglwys Sefydledig wedi wneuthur â dynion enwog ein gwlad; y mae ei swyddogion wedi codi dynion dienaid i safleoedd uchel, a gadael meibion athrylith i "ymwingo mewn trwm angen"—trueni

mawr iawn i'r fath ddynion trylen, hyglodus, a thalentog a Ieuan Brydydd Hir, Ieuan Glan Geirionydd, a Goronwy Owain gael y fath gam erchyll ar law yr Eglwys Sefydledig.—Ah! ffei ti Eglwys Sefydledig: bydd hanes am yr enwogion hyn yn ystaen porphoraidd ar dy wisg—"ffug-gysegrlan" hyd dy fedd.

Rhoddodd Paul Panton, Ysw., Plasgwyn, Pentraeth, Môn, flwydd-dâl o 20 punt iddo tua diwedd ei oes, ar yr ammod fod ei holl lawysgrifau i gael eu trosglwyddo iddo ef, Mr. Panton, ar ol i'r "Offeiriad a'r Bardd" farw. O ganlyniad, aeth ei holl gasgliad, yn cynnwys cant o gyfrolau, i lyfrgell y Plasgwyn; ac y maent yn bresenol yn meddiant etifedd y Plasgwyn, Barton Panton, Ysw., y Gareg Lwyd, Caergybi. Dywedir fod Ieuan, nid yn unig yn wladgarol, ond yn ddyngarol a charedig iawn, a'i fod yn meddu llawer o ansoddau ardderchog. Wedi treulio oes hirfaith, llawn o ofid a phoen, ac hynod lafurus, dychwelodd i'w anwyl le genedigol, ac yno yn Awst y flwyddyn 1789, ymadawodd â'r fuchedd bresenol, yn 59 mlwydd oed.

Felly terfynodd un o ddysgedigion penaf yr oes, ac un o feirdd mwyaf awenyddol a grymusaf Cymru. Tra saif y Mynydd Bach i gusanu'r las nen, afon Ystwyth i lyfu ceryg mân i'w bedd, ac Aberystwyth ym mhen môr, fe saif enw Ieuan Brydydd Hir yn gadarn a diysgog—a phan byddo enwau Ficeriaid a Churadiaid dinod a dienaid wedi myned i ebargofiant, a'r *hen Eglwys Lân Ganolig* ei hun druan wedi ei thaflu oddiar chwareufwrdd amser i drochionog fôr anghof, fe fydd enw Ieuan yn perarogli fel y bludeu a dyfant ar fron yr ardd.

Y Parch. Daniel Evans, B.D., (Daniel Ddu o Geredigion); un a haedda yn dda gael ei gofio gan y Cymry fel bardd a llenor. Ganwyd y cadeirdraw Daniel Ddu ym Maesymynach ym mhlwyf Llanfihangel-Ystrad, Ceredigion, yn 1792. Yr oedd ei dad yn amaethwr cyfoethog a chymmeradwy, ac yntau oedd yr ail o dri mab. Er ei ddwyn i fynu i'r eglwys sefydledig, anfonwyd ef i ysgol ramadegol Llanbedr, a gedwid y pryd hyny gan y Parch. Eliezer Williams, mab y Parch. Peter Williams, yr esboniwr. Oddiyno anfonwyd ef mewn amser cyfaddas i Rydychain *(Oxford)*, lle yr aeth i Goleg yr Iesu; yn yr hwn ym mhen amser yr etholwyd ef yn Gymrawd *(Fellow)*. Wedi hyny urddwyd ef, a chafodd y gradd o wyryf mewn duwinyddiaeth (B.D.); a pharhaodd i fwynhau ei Gymrodoriaeth *(Fellowship)* am flynyddoedd lawer. Ennillodd dlysau mewn eisteddfodau. Cyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth—yn awdlau, cywyddau, englynion, a llawer o ganiadau rhyddion, prydferthaf yn yr iaith Gymraeg—yn llyfr trwchus o 410 o dudalenau, yn y flwyddyn 1831, a elwir "Gwinllan y Bardd."

Yr oedd ei arddull mor eglur a dirodres, fel y daeth ei gyfansoddiadau yn dra chymmeradwy gan bob dosbarth o ddarllenwyr Cymreig. Mae yn awdwr rhai o'r pennillion mwyaf tlws a phrydferth a ganwyd erioed mewn un iaith, megys "Dychweliad y Mab Afradlon."

"Pwy a welai'n dod â gwisgoedd
Hardded a goleuni'r wawr,—
Yn cusanu'r crwydryn eiddil—
Ar ei wddf yn syrthio i lawr;
Uwch ac uwch yn awr dyrchafa
Tannau'r nef eu sain ynghyd:
O! a ydyw'th werth di gymmaint?
F'enaid bach, a wyt mor ddrud?" &c.

Nodwn eto enghraifft neu ddwy: yn gyntaf dyfynwn bennill neu ddau o'i gân gampus ef, sef "Golwg ar gyflwr yr Iuddewon:"—

"Galara, fy awen, fun geinwen, fwyn gu;
Na atal y dagrau ar d'wyneb sy'n lli',
Meddyliaist am wrthddrych tosturi gwir fawr,
Na atal y dagrau. ond ffrydient i'r llawr.

Eich telyn bereiddlais, ei thannau fu'n dyn,
Sydd heddyw'n grogedig ar helyg y glyn:
Eich teml oddidog na welwyd mo'i hail,
Bwystfilod y maesydd a borant ei sail." &c.

Mae canig y "Fenyw Fwyn" hefyd o'i eiddo, yn naturiol i'r pen, yn enghraifft nodwn bennill:—

"Menyw fwyn yw gwaith perffeithaf
Dwylaw glàn y Duw goruchaf;
Perl a harddwch creadigaeth,
Rhosyn byd yn ddi-ammheuaeth."

Y mae gan y bardd naturiol, coethedig, ac efengylaidd hwn, lawer o ddarnau eraill a ddaliant i'w cystadlu a gweithiau goreu prif feirdd Cymru, megys "Cywydd y Fesen," "Awdl er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Eliezer Williams, M.A.," "Englynion coffadwriaethol am Iolo Morganwg," &c., a barhant yn anwyl gan ei genedl tra byddo "Cymru, Cymro, a Chymraeg," ie, tra y saif Brynamlwg yn dalgryf ar ei wadnau, a Maesymynach a Maesnewydd yn anneddau dynolryw, a phentref Cribyn Clotas yn le o ddinodedd ym mharthau anhygyrch Ceredigion, saif enw yr anfarwol Daniel Ddu pan fyddont hwy wedi syrthio i ebargofiant bythol—fel y canodd yr awenber Amnon iddo:—

"Ar gof bydd dy enw eurgain—O! Daniel,
Tra dynion ym Mhrydain;
A thra cof, bydd wylofain,
Dy roi ym mysg dae'r a main."

Bu farw Mawrth yr 28ain, 1846, yn 54 o flwyddi oed; a chladdwyd ef ym Mhencareg, Sir Gaerfyrddin, ym meddrod ei dadau. "Heddwch i'w lwch." Dyfynwn ychydig o "Awdl Marwnad Daniel Ddu," gan Ioan Cynllo Ceredigion, buddugol yn Eisteddfod Llanbedr, Ceredigion, Alban Hefin, 1859.

"Daniel Ddu mor gu a gaid,
Yn anwyl loni'n enaid;
Ein Daniel, ein dywenydd,
Ein disgleirwen seren sydd—
Yn oer barth priddellau'r bedd,
Mewn gweryd llwm yn gorwedd,
Ninau o'i ol yn ein aeth,
Yn chwarau awchiau hiraeth.

Gwawr dêg ar Geredigion—mwy nid oes:
Dymuniad ei chalon,
A'i mawredd gyda meirwon—
A rifwyd; briwiwyd ei bron.

Gyfaill hoff, wrth gofio y llòn—wyneb
A wenai mor dirion,
A'i ddenawl ymddyddanion—teimlaf aeth
Iàsau hiraeth yn loesau oerion.

Delw ei enaid i'm adloni—gaf
Eto a'i gyfarch i mi,—
Yn ei "Winllan"—llan llwyni
Ffrwythau pêr—hyber yw hi.

Ymgomio yno ga'm anian—âg ef
A'i gyd-gyfarch dyddan,
Nid oes i'm bryd gwywlyd, gan,
Unlle mor hoff a'i "Winllan."

Brawdgarwch brwd ac eres—haelioni
A lanwent ei fynwes;
I'w hen wlad dymunai les,
A'i genedl garai'n gynhes.

Ewyllysiai fod i'w wlad yn llesiant,
Rhoi llaw iddi, a charu ei llwyddiant,
Helaethu cyrau graddau 'i gwareiddiant,
Ei hurddo âg addurn enwogrwydd gwyddiant;
A dwyn y'mlaen bob dawniant—dymunol,
I'r natur ddynol a roent addurniant.

Arwyddion caru addysg,
O 'mofyn a derbyn dysg,
Yn gynnar rodd egni ei reddf
Ac awenydd ei gynneddf.

Ei addysg, ei ddullweddu—ei feithrin
Gan brif athraw mwyngu,
A ga'dd, a'i ymagweddu—
I'r oruchel Daniel Ddu.

Yn Rhufain a Groeg cartefawl—ydoedd:
Eu blodau awdurol
Oeddynt yn adnabyddawl—i'w ddirnad,
Gwyddai drefniad eu syniad swynawl.

Unol a'i chwaeth ddifalch ef—dewis oedd
Fywyd syml mewn tangnef,
Tawel, o drwst teulu y dref
Sy'n dilyn sŵn a dolef.

Ei ysbryd iselfrydig—dewisodd
Cesi'n neillduedig,—
Yn ei artref cyntefig
Maesymynach—pa guach gwig?

Ow! caled yw gorfod coelio—ei fod
Mewn oer fedd yn huno;
Ammeu braidd ydym briddo
Un oedd gymmaint braint i'n bro.

Bellach ganu'n iach gawn ni—nid am byth,
Ond am beth o'n teithi;
A theg ymweled â thi
Ar lân y ter Oleuni.

Cellan. *(I'w barhau.)* TEIFIWYSON.

ERYR.

MAE yr eryr yn cael ei gyfrif yn frenin ar adar yr ysglyfaeth, pig gryf-fachog, coesau plufog, a thri o grafanceau ewinog ym mlaen ac un yn ol; yn aderyn gwangcus iawn; efe a cyn esgyrn yr ysglyfaeth er cael allan y mêr; mae yn bwrw ei blu unwaith bob blwyddyn; mae yn hynod o dyner wrth ei rai bach, dywedir ei fod yn eu dwyn ar ei adenydd i'w dysgu i ehedeg, ac yn troi eu penau i edrych ar yr haul. Dywedir y geill edrych ar yr haul a'r ddaear ar yr un waith: y creadur craffa ei olwg yn y greadigaeth yw yr eryr. Mae yn adeiladu ei nyth yn y creigiau, ac yn byw oedran maith; maent wrth fwrw eu plu yn dyrchafu i fynu i'r awyr yn agos allan o'r golwg, ac yn disgyn fel mellten ar eu penau i'r môr—yna yn codi i'r awyr yr ail waith ac yn ymysgwyd eu plu yn wres yr haul; ac am eu gwaith yn syrthio fel plwm i'r môr, y geilw rhai ef yn *eryr plwm;* mae amryw fath o honynt, megis *eryr auraidd*, *eryr du*, eryr *gynffonwyn*. Maent yn gyffredin o faintioli twrci, tafod fel tafod dyn, llygaid craff mawrion, yn suddo i'w ben. Maent yn gyffredin iawn yn *Norway;* mae rhywogaeth o honynt yn *Affrica* a elwir *eryr coronawg*, am fod plu ei goryn yn codi i fynu ar lun coron: mae y rhyw yma yn llymach eu golwg ac yn fwy gwangcus nag un ryw arall. Job 39, 27—30; Salm 103, 5; Deut. 32, 11. Mae amryw o eryrod wedi eu gweled yng Nghymru a Lloegr yn yr oes hon; lladdwyd un o honynt yn y flwyddyn 1776, yr hwn a welais i fy hun, mewn lle a elwir Llansanwr, ger-llaw y Bontfaen, yn Morganwg; ei saethu a wnawd pan oedd ar ei weithred yn lladd oen, a thorwyd ei adenydd, a chafodd y dyn waith mawr cadw bywyd ei gi pan redodd ato; briwiodd ei ddryll wrth ei guro, pan oedd yr eryr a'i grafangcau yn ddiogel yn y ci, a chafodd ymdrech mawr cyn ei orchfygu. Mae lle yn Ngwynedd a elwir *Creigiau'r eryri*, lle y byddai yr adar ysglyfaethus yma yn magu, ac yn heidio y lle; a dywedir i fod rhai o honynt i'w gweled yno ar rai amserau yn yr oes hon.—*Allan o Eiriadur Cymraeg Iolo Fardd Glas, Morganwg.*

EDRYCH I FYNY.—Wele yn canlyn wers foesol dda dan fantell chwedl:—Digwydd-odd dyn ifange un tro i godi sofren i fyny ar y ffordd fawr. Byth wedi hyny pan ar daith oddiamgylch yr oedd yn cadw ei lygaid yn sefydlog ar y ddaear, gan obeithio cwrdd âg un arall. Ac yn ystod bywyd hir, darfu iddo o dro i dro bigo i fyny amryw fathynau *(coins)* o aur ac o arian. Ond yn ystod yr holl flynyddau hyn, tra yr oedd yn edrych am danynt, ni welodd efe y nefoedd yn ddisglaer uwch ei ben, na natur yn hardd a phrydferth o'i amgylch. Ni chaniataodd i'w lygaid un waith i edrych i fyny oddiwrth y llaid a'r baw lle'r oedd yn ceisio caffael y trysor; a phan y bu farw yn hen hen wr cyfoethog, nid oedd yn adnabod em dawar yma ond megys ffordd front yn yr hon y pigir i fyny ambell sofren wrth rodio ar hyd ddi.

PENGLOG.

PENGLOG, ïe penglog ydyw, nid oes un lle i neb i ammheu hyny. Penglog dyn hefyd, ond pa un ai dyn menyw neu ddyn gwryw sy fwy nag y gallaf fi atteb. Ond ganad p'un ydyw, y mae yma destun myfyrdod. Fel ag y mae yn dadgan rhywbeth am yr hyn y bu. Fel pob peth arall y mae wedi profi ei fod yn gyfnewidiol. "Och," meddai'r Caliph Abd'almâlec, "y mae pob peth newydd yn fuan yn rhedeg i ddadfeiliad, ac am bob un sydd, yn fuan dywedir, efe a fu." Efe a fu, yn unig allwn ni ddweyd am y penglog hwn, canys nid oes yn aros yn bresennol ond ychydig neu ddim o'r ardderchogrwydd a'r rhagoroldeb a fu yn perthyn iddo unwaith. Y mae fel hên adeilad adfeiliedig heb neb yn byw ynddo. Y mae'r dodrefn wedi ei symud ymaith, a'r preswylwyr wedi myned i ffwrdd.

> "Life and Thought have gone away, Side by side:
> Leaving door and windows wide, Careless tenants they!
> All within is dark as night, In the windows is no light;
> And no murmur at the door, So frequent on its hinge before."

Nid oes yn àros ond y man *lle bu* 'r drws, a'r man *lle bu* 'r ffenestri. Dyma lle'r oedd y ddwy ffenestr. Pa faint, wys, a pha beth a welodd perchen y tŷ trwyddynt? Pa olygfeydd yr ymhyfrydai fwyaf ynddynt? Dyma dwll y clust! Pa faint o fiwsig sydd wedi pasio trwy hwn? Pa faint, a pha fath o ystorïau? Pa hanesion, pa wybodaethau a ddichon fod wedi cael eu trosglwyddo trwy y twll bach hwn? Feallai, pwy ŵyr, fod swn magnelau rhyfel wedi bod yn rhuo trwyddo? Pa seiniau, wys, a gawsent y derbyniad gwresocaf gan wr neu wraig y tŷ?—yr adar bach â'u "mil o leisiau melusion," neu swn y defaid a'r gwartheg, neu swn y melinau, neu feallai y rhôd nyddu fach—y mae'n ddilys genyf fod llawer o ryw swn neu gilydd wedi bod yn trafaelu trwyddo—"swn corn helwyr" feallai, "bloedd medelwyr, clych, taranau, neu'r ddaear-gryn,"—beth, beth, beth?—nid oes neb all atteb beth i gyd.

Dyma'r twll lle'r oedd y tafod yn arfer siglo ynddo. "Y tafod," meddai Iago, "tân ydyw, byd o anghyfiawnder,"—"ni ddichon un dyn ei ddofi, drwg anllywodraethus yw, yn llawn gwenwyn marwol." Os oedd wedi ei hongian gystal ag y mae llawer tafod yn yr amser presennol, y mae'n ddigon tebyg ei fod wedi byddaru clustiau llawer! Y mae's yn dweyd am rai dynion, ond iddynt gael cetyn o asgwrn oddiwrth unrhyw greadur, cetyn a dim yn rhagor, y gallant roddi desgrifiad o'r creadur hwnw—y gallant ddywedyd beth oedd ei faentioli, ei natur, a natur y bwyd a arferai fwyta, ynghyd a llawer iawn o bethau ereill. Ond wele asgwrn fan yma—penglog—pwy all ddywedyd beth oedd cymmeriad ei berchen? Pwy all roddi ychydig bach o'i hanes? Pe byddai ond y tafod etto yn aros, a'r medr llefaru, codai awydd ynof i ofyn llawer iawn o gwestiynau. Pwy all ddirnad beth fyddai iaith yr attebion. Feallai mae Cymraeg gloyw glan, ond y mae mor debyg a hyny y gallai fod yn Saesneg, neu Ffrangceg, neu Yspaeneg, ond ganad pwy *eg* fuasai, y mae'r fo yn ddigon distaw yn awr. Os Hindŵad oedd, y mae heb yr un iaith yn awr. O rhyfedd fel yr hoffwn wybod ychydig o'i hanes—o ba le y daeth?—pa bryd y daeth?—sut y daeth?—pa fath sefyllfa yr oedd yn byw ynddi?—canys er dim a allaf fi gael allan, gallai fod yn frenin, a gallai fod yn feger yr un cystal. Rhyfedd onide mor gyfiawn yw natur, 'does ond gwisg fach deneu rhwng pomp a rhodres byd â chlytiau a charpiau'r cardotyn. Y mae'r briddell yn symmud ymaith y wisg, ac wele

pawb yn gydradd. Diogenes, os nad wyf yn camsynied, oedd yn yr esgyrndŷ gynt yn troi yr esgyrn yn ol ac ymlaen, pan ddaeth y Tywysog i mewn ac a ofynodd iddo beth yr oedd yn ei wneuthur:—yr atteb oedd, "yr wyf yn edrych am esgyrn eich tad y brenin, ond yr wyf yn methu a'u gwahaniaethu oddiwrth esgyrn ei gaethion." Fel yr oedd y pryd hwnw y mae yr awr hon:

"Y mae'r Brenin a'r Cardotyn yn y gweryd heb ddim gw'ân,
A'r Frenhines a'r Fegeres fel dwy gares o'r un grân"

Beth ynte, gofynaf etto—

"Beth yw mawrfri uchel achau, rhwysg a mawredd bonedd byd?
Rhyw oferedd sal di-sylwedd, gwynt a gwagedd oll i gyd;
Nid all estyn un funydyn ar eu heinioes hwy na'u hedd,
Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant a ddibenant yn y bedd."

Ond wele'r penglog etto—ac wele finnau—un yn gofyn—neb yn atteb. Nis gwn p'un ai milwr neu ynte un o genhadon hedd ydoedd. Pa un ai ydoedd yn hoff o'r cleddyf neu o lonyddwch—o gynnhen ac ymryson neu ynte o gariad ac ewyllys da—yn gwasgar difrod a chelanedd ymhlith ei gyd-ryw, neu ynte o Sul i Sul yn gwrando neu feallai yn pregethu efengyl Tywysog Tangnefedd; er dim allaf fi gasglu oddiwrth yr olwg, gallai fod yn un o'r rhai hyny yn gystal a'r llall. Feallai ei fod wedi bod yn sefyll yn ddewr dros freinniau ei wlad yn erbyn y Sacsoniaid; ond ganad beth ydoedd y mae yn ddistaw yn awr, heb neb i adrodd ei ystori, a gellir ei restru ymhlith miloedd ereill, a dywedyd am danynt:—

"Na wybu am isel fan eu bedd
Ond mam neu dad, neu wraig neu ferch:
Eu henwau ni chroniclwyd ar y dail
Sy génym ni. Ond gan y Tad mae llyfr
Mwy helaeth."

Ganad faint o gynnhwrf, ganad faint o felldith ac o ddrygioni y darfu iddo wneuthur yn ei ddydd, y mae yn awr mor ddistaw ac mor llonydd a'r gareg fach ar waelod y llyn. Ganad faint o weithredoedd o gariad ac elusen-garwch y darfu iddo gyflawni, tebyg fod pob cof am danynt wedi darfod erbyn hyn. Os gwelodd oleuni haul wedi i Syr Walter Raleigh* ddod â'r dybaco i'r wlad yma, byddai yn sỳn ganddo weled y cynnydd ar y defnydd a wneir o'r llysieuyn gwerthfawr yn y dydd presennol, pan y mae miloedd o ddynion, call yr olwg, yn sugno pleser ac hyfrydwch oddiwrtho na fedr eu tafodau eu hunain eu traethu; pan y mae plant bach, braidd cyn eu bod wedi gosod eu peisiau o'r neilldu, yn cael eu hegwyddori yn nirgeledigaethau'r bibell; pan y mae menywod a gwrywod wedi cyrhaedd cryn lwyddiant yn yr arferiad hardd a glanwedd, gwerthfawr a moesoleiddiol o wneuthur y trwynau a

* Dygwyd y dybaco gyntaf i'r wlad yma o Tobago yn y West Indies gan Syr Walter Raleigh, yr hwn a anwyd yn 1552, a fwriwyd i garchar yn 1603, lle y bu am yn agos i 13 blynedd, rhyddhawyd ef o garchar Mawrth 17, 1616, gosodwyd ef i farwolaeth ar y 29ain o Hydref, 1618, trwy dori ei ben. Syr Walter hefyd ddygodd y pytatws gyntaf i'r wlad yma o Virginia, North America. Mewn cyssylltiad a'r dybaco, adroddir yr ystori ddigrif ganlynol: Un diwrnod wedi ciniaw, yn fuan, mae'n debygol, wedi ei ddychweliad adref, danfonodd Syr Walter y butler i'r seler i 'mofyn siweed o ddiod, ac aeth i gymmeryd mwgyn gyda llaw, fel mae'r ffasiwn yn awr. Pan ddaeth y butler yn ol, er syndod mawr iddo, 'roedd y parlwr yn llawn mwg, ac yr oedd y mwg hefyd yn berwi allan o enau ei feistr. Credodd yn union ei fod ar dân (beth yn fwy naturiol?) ac yn ei ofn a'i ffyddlondeb, bwriodd y siweed cwrw i wyneb ei feistr, i dreio os gallai ddiffodd y tân.—A wnaethpwyd gwell defnydd o siweed o gwrw erioed? Pwy a ettyb?

dderbyniasant gan Greawdwr y bydoedd er mwyn dibenion eraill, yn dderbynfäau croesawgar i'r drewlwch. Os oedd y gwefusau a fu fan yma yn arfer pwffio'r dybaco, y maent yn ddistaw mwy. Os oedd y trwyn yn aml yn daer ei alwad am y drewlwch, y mae yn llonydd bellach. Os oedd y llwngc yn aml yn sych, ac yn aml yn galw am ei wlychu â'r diodydd meddwol, y mae wedi ei ddisychedu yn y diwedd, Os oedd y capten oedd yn arfer byw yn y benglog yn fawr ei awydd am feddiannau'r byd, y mae wedi cael ei ddigon :—

"Dyn nis gofyn ond ychydig, Na'r ychydig hyny'n hir,
Yn eu beddau caiff cybyddion, Eu digonedd bawb o dir :
Tir a leinw'r gôl a'r galon, A'r ddau lygaid i fyny'n lân,
Nes bo'r gêg yn gwaeddu DIGON, Gair na chlyw'd erioed o'r bla'n."

Beth oedd ei rodiad yn y byd? P'un ai dyn da neu ynte ddyn drwg ydoedd? 'Does neb dynion all atteb. Daw dydd y dygir yr holl bethau hyn i'r golwg, a *gwyn* neu ynte *gwae* ei fyd y bydd hi.

Pan agorir dorau'r dwyrain ac y gwawria boreu y dydd mawr, pan bydd i'r Udgorn i ganu croesawiad i ail-ddyfodiad goleuni Haul y Cyfiawnder, pan y delo'r bywyd etto i'r bedd, a phan y cyrchir y dorf o ddu a gwyn o flaen gorsedd Barn, beth, *beth*, BETH fydd y ddedryd?

Hynyna am y benglog, yn annhrefnus i'r eithaf, ond fel ag y mae, ac fel ag y daeth dros y pin i'r papur.

Hydref 10*fed*, 1863. S. N. S.

CYNGHORION I FAB.

RHODDWYD y cynghorion canlynol gan y diweddar Barch. Dr. Peabody i'w fab, pan oedd efe ar fedr myned oddicartref i aros, gyda'r dymuniad y byddai iddo i'w darllen bob dydd :—

1.—Nac anghofiwch fod genych Dad Nefol. Siaradwch ag Ef bob dydd. Y mae yn anniolchgar i'w anghofio Ef; ac os y gwnewch Ei anghofio, byddwch yn edifarhau yn chwerw am hyny byth.

2.—Cofiwch am eich cyfeillion gartref, ac mor bryderus y maent am eich llwyddiant a'ch gwellhad. Os na chymerwch y drafferth o ysgrifenu atynt, nis gallant gael un ymddiried yn eich cariad.

3.—Byddwch gariadus a ffyddlon tuag at gyfeillion o'ch amgylch. Rhoddwch i fynu eich tueddiadau eich hunan pan y byddont yn gwrthwynebu eu tueddiadau hwynt.

4.—Llywodraethwch eich nwydau yn gadarn. Gellwch fod yn feistr arnynt; na fyddwch yn was iddynt.

5.—Yn wastad gofalwch yn gyntaf am eich dyledswyddau, ac wedi hyny am eich pleserau. Gorphenwch eich myfyrdodau cyn y caniattäoch i'ch digrifwch ddechreu.

6.—Na ddarllenwch lawer o ffug-chwedlau. Y mae i'r meddwl yr un peth ac yfed i'r corff; y maent yn dyrysu ac yn dinystrio gallu y meddwl at astydiad caled a defnyddiol.

7.—Gofynwch, am bob peth yr ydych yn cael eich tueddu neu eich teimtio i'w wneuthur, A ydyw hyn yn iawn? Os ydyw, gwnewch ef. Bob tro yr

ydych yn ufuddhau i'ch cydwybod, yr ydych yn cryfhau ei gallu o fewn i chwi. Bob amser y gweithredoch yn groes iddi, yr ydych yn gwneuthur rhywbeth er lleihau ei gallu.

8.—Nac anghofiwch byth eich bod ar y ffordd i fyd lle bydd yn rhaid i chwi roddi cyfrif am y cyfan a wnaethoch. Byddwch fyw fel y galloch roddi eich cyfrif i mewn gyda llawenydd, ac nid gyda dychryn. *Cyfd.* D. Iago.

Gohebiaethau.

At Olygydd yr "Ymofynydd"

Syr—Y sylwadau a ganlyn a draddodwyd gan ein cyfaill ar y pwnc yn Onnenfawr. Cynnygir hwynt i'r Ymofynydd.

T. Evans.

BETH YW CRISTION.

Gan fod hyd y nod Cristnogion yn gwahaniaethu yn mhell oddiwrth eu gilydd gyda golwg ar yr atteb mwyaf cymhwys a phriodol i'r cwestiwn uchod, fe weddai fod pob dyn yn bur ochelgar yn ei waith yn gosod allan ei syniadau ar y pwngc; a hyny rhag rhoddi tramcwydd dianghenraid i neb pwy bynag, ac ymddengys i mi nad oes gan neb hawl i wneuthur hyny. Ar yr un pryd y mae galwad arbenigol arnom i ddweud neu i osod allan ein barn neu ein syniadau yn onest a diragrith ar bob achlysur penodol, gan nad beth fydd y canlyniad neu y canlyniadau: ac os y cawn ein argyhoeddi o'n camsyniadau dylem fod yn barod i gyfaddef hyny a chofleidio rhai newydd, a mwy efengylaidd.

Y mae yn rhaid i mi gyfaddef i fod cryn dipyn o anhawsdra ar ein ffordd i gael bodlonrwydd hollol, hyd y nod i ni ein hunain, gydâ golwg ar lawer o byngciau ag sydd yn cael eu cynyg i'n sylw; ond yr ydym yn meddwl nad ydyw felly gyda golwg ar y cwestiwn dan sylw yma ar yr achlysur presenol, os y credwn yr hyn ag y mae Iesu Grist, ein Pen a'n Athraw Mawr yn ddweud mewn perthynas iddo.

Dyma beth a ddywedodd Ef mewn attebiad i gwestiwn a ofynwyd iddo ganrai o'r cyfryw ag oeddent yn eithaf rhagfarnllyd yn ei erbyn—y rhai a wnaethant bob ymdrech i lethu a diddymu ei achos Ef yn ei fabandod, a hyny o herwydd eu bod wedi cael eu siomi yn eu disgwyliadau afresymol ac uchelgeisiol; sef, "Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe," Ioan vi. 29.

Ymddengys gan hyny oddiwrth y geiriau uchod ynghystal â chyffelyb eiriau o'i eiddo nas gellir dywedyd gydag un cymhwysder fod neb neu un dyn yn Gristion ond yr hwn ag sydd yn credu ynddo Ef; hyny yw credu ei athrawiaeth—geiriau y bywyd tragwyddol; neu ynte mai Efe yw y Messiah, Eneiniog y Nef—y dysgawdwr goreu a fu ar wyneb y ddaear erioed; yr hwn oedd wedi cael ei ddonio a gallu o'r uchelder i draddodi ei genadwri nefol i'r byd i'r dyben i'w aileni,—ei ddwyn o'r tywyllwch moesol ag oedd ynddo ar ei ymddangosiad yn y byd i'r goleuni,—o gyflwr caeth i gyflwr rhydd—ïe, o feddiant Satan i deyrnas yr unig wir a'r bywiol Dduw.

Wrth ddweud hyn yna nid ydym am gyfleu y drychfeddwl nad oes neb dynion da tufaes i gyffiniau Cristnogaeth, y rhai ydynt yn eithaf teilwng o'u efelychiad mewn llawer iawn o ystyriaethau ac mewn llawer o bethau.

Yr ydym ni yn credu i fod genym lawer iawn o bethau da i'w dysgu hyd y nod oddiwrth lawer o Baganiaid. Ar yr un pryd ymddengys i mi nas gellir dywedyd gydag un cymhwysder a phriodoldeb, fel y dywedasom yn barod, am un dyn ei fod yn Gristion ond yr hwn sydd yn cydnabod ein Arglwydd Iesu Grist yn ben mewn pethau crefyddol, ac yn ymdrechu dilyn ei ôl trwy glod ac anghlod, a thrwy anadlu ei yspryd gostyngedig ac addfwyn—trwy daenu gwybodaeth am Dduw ac o'i ewyllys, ac ymdrechu hefyd hyd ag y mae ynddo i gael y byd yn gyffredinol i'w briodol le.

Ac i'r graddau ag y mae ffydd y Messiah yn dylanwadu arnom ni, i'r graddau hyny yn gymwys ydym yn profi mai Cristnogion mewn gweithred a gwirionedd ydym. A chwedi i ni ddyfod i adnabyddiaeth o Dduw yn ol y darluniad ag y mae'r Iesu yn rhoddi o hono,

dyna ni yn y man yn y Nefoedd yma, ac yn ol ei addewid byddwyn yn y nefoedd wedi myned oddiyma,

E. W. Lloyd.

Cwmbach, Hyd. 21, 1863.

Mr. Gol.,—A fyddwch mor garedig a rhoddi lle i'r cais isod, i Mr. Thomas, gael ymddangos yn eich Ymofynydd clodwiw.

At y Parch. T. Thomas, Pantydefaid.

Barchedig Syr,—Gan eich bod mor alluog a pharod i oleuo eich cyd-ddynion trwy esponio rhanau o'r Ysgrythyrau, a fyddwch mor ddaed a chyflwyno trwy'r Ymofynydd eich esponiad ar Ioan viii. 44 :—"O'ch tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynnwch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad; ac ni safodd yn y gwirionedd, oblegyd nid oes gwirionedd ynddo ef. Pan yw yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo."

Atebiad Ysgrythyrol o'r uchod a rydd foddlonrwydd i mi a channoedd ereill yn ddiau.

Yr eiddoch, Mr. Gol.,

Ger Llanboidy. R. P. B.

Hanesion Gartrefol a Tyramor.

Y Llys.—Dydd Mawrth, Hydref 13, gwnaeth y Frenhines ei hymddangosiad cyntaf yn gyhoeddus oddiar pan y mae yn weddw. Yr oedd yr achlysur yn dra phriodol, sef ydoedd, ar gyflawniad y ddefod o gyssegru cofadail y diweddar Dywysog Cydweddog yn Aberdeen—yr hyn a gymmerodd le yn mhresenoldeb ei Mawrhydi, ac amryw aelodau eraill o'r teulu brenhinol. Cyrhaeddodd y lle erbyn hanner awr wedi un o'r gloch, pan y ffurfiwyd gorymdaith o gerbydau i'r man lle saif y gofadail, yr hon sydd gyfansoddedig o ddelw y Tywysog Cydweddog, 6 troedfedd a 6 modfedd o uchder. Cyn tynu y gorchudd oddiar y ddelw cyflwynwyd anerchiad i'w Mawrhydi oddiwrth bwyllgor y tanysgrifwyr at y gofadail, i'r hwn yr attebodd ei Mawrhydi trwy Syr G. Grey. Edrychai y Frenhines ar ddelw ei diweddar briod gydag arwyddion amlwg o deimlad dwys, ac yna aeth ymaith tua Balmoral ychydig wedi tri o'r gloch. Mae ei Mawrhydi yn awr wedi dychwelyd o Scotland: cyrhaeddodd Windsor boreu dydd Mercher, yr 28ain.

Y Weinyddiaeth.—Araeth Syr R. Palmer, yr *Attorney General* newydd yn Richmond, a gynnyrcha yr amlygiad diweddaf o weithrediadau ac amcanion y Weinyddiaeth mewn perthynas âg America; gyda chyfeiriad penodol at y *Confederate Rams*—llestri rhyfel a adeiledid i wŷr y Dè yn Liverpool—pa rai a attafaelwyd gan y llywodraeth. Amddiffyna y weithred hono o eiddo Iarll Russell. Dywed "nad ydyw goddef i longau rhyfel gael eu parotoi a'u taclu yn ein porthladdoedd yn gyson a dyledswydd gwlad anmhleidiol." Addefodd hefyd na ddylasid goddef i'r *Alabama* fyned allan; ond fod anhawsderau mawrion ar ffordd ein llywodraeth oherwydd Cyfraith Rhestriad Tramor. Wrth diweddu dygodd dystiolaeth uchel i gyfiawnder y *Prize Courts* yn yr Unol Daleithiau.

Tanchwa ddychynllyd yn Ngwaith Glô y Morfa, ger Taibach.—39 *o fywydau wedi eu colli.*—Drwg genym hysbysu fod damwain ddychrynllyd etto wedi cymmeryd lle ddydd Sadwrn, Hydref y 17eg, yn mhwll glô y Morfa, gerllaw Taibach, Morganwg. Perchenog y gwaith yw H. H. Vivian, A.S., ac y mae ar dir yr aelod dros y sir, C. R. M. Talbot. Mae yn hen bwll, yn gorwedd o fewn tua milldir i lan y môr; y mae oddeutu tri chant o lowyr yn gweithio ynddo, a chodir yno tua saith gant o dynelli y dydd o lo. Rhwng 10 ac 11 o'r gloch y boreu y cymmerodd y taniad dychrynllyd le yn y wythen isaf. Dylid dyweyd fod y pwll dros 300 o latheni o ddyfnder; a bod *drift* wedi hyny o wastadedd gwaelod y pwll yn gostwng yn serth i afael gwythen arall o lô naw troedfedd o drwch; ac yn y dyfnder mwyaf, a hyny o dan y traeth, os nid

o dan y môr, y cymmerodd y ddamwain le. Yr oedd oddeutu 400 cant o dynion yn y gwaith ar y pryd, a thaenodd y newydd ar y cyntaf eu bod oll wedi eu lladd. Ond yn fuan, daeth rhai o'r glowyr dychrynedig i fyny gan ddwyn cyrph meirw eu cydweithwyr gyda hwy; a phan ddeallwyd y fan y cymmerodd y ddamwain le, gwybyddwyd fod mwyafrif mawr y gweithwyr yn ddigol. Rhyw dri neu bedwar a deugain oedd yn gweithio yn y parth hwnw o'r gwaith, ac nid oes ond ychydig o honynt hwy wedi eu harbed. Tarawyd amryw o weithwyr ereill mewn parthau ereill o'r gwaith i lawr gan ergyd y tanchwa, a llosgwyd hwynt i raddau mwy neu lai, ond neb yn farwol. Prysurodd Mr. Gray, arolygydd y gwaith, yn ddioed i le y ddamwain trwy leoedd peryglus, a llwyddodd i achub bywyd un neu ddau, ond bu agos iddo golli ei fywyd ei hun trwy hyny. Mewn un man, tra yn ymwthio trwy dwll dros ben "cwymp" o ddaear, mygwyd ef gan y "damp fud," a gorfuwyd ei lusgo yn ol gerfydd ei goesau. Yr oedd rhai o'r trueniaid oedd wedi eu cau i mewn wedi llwyddo i gael gafael yn ei ddillad, a llusgwyd un allan trwy iddo ddal ei afael ynddo, ac achubwyd ei fywyd. Yr oedd ereill yn rhy rhwym, a gadawodd Grey lawer o'i ddillad ar ol yn eu dwylaw. Er y clywid lleisiau distaw y trueniaid y tu ol i'r twll hwnw, yr oedd yr awyr mor fârwol, fel nad allai neb fyned yn mlaen i'w cynnorthwyo. Un rhwystr mawr i achub y dynion oedd fod yr *incline* hir a garw rhyngddynt a gwaelod y pwll. Dygwyd wyth o'r dynion yn fyw i ben y pwll erbyn chwech o'r gloch; ond bu un o honynt farw yn mhen ychydig funydau, ac yr oedd ereill wedi llosgi mor ddrwg fel nad oedd gobaith am eu hadferiad. Erbyn nos Sul, yr oedd wyth neu deg ereill o gyrph meirw wedi eu codi, ac oddeutu 24 ar ol, heb un gobaith am danynt; ac y mae yn ammheus a ellir cael hyd iddynt am rai dyddiau. Cyn wyth o'r gloch nos Sadwrn yr oedd Mr. Vivian wedi myned yno, gydag amryw o'i oruchwylwyr mwyaf profiadol, ac yr oedd Mr. Evans, arolygwr y llywodraeth, wedi disgyn i'r pwll yn gynnar y prydnawn. Yr oedd y meddygon Russell a Pritchard yn gwneud eu goreu gyda'r dioddefwyr, a phawb ar eu goreu; ond fod yn anhawdd ar amgylchiad o'r fath i wybod y llwybr goreu i'w gymmeryd. Y mae y pwll hwn yn un o'r gweithiau glô goreu o ran ei lywodraeth yn y deyrnas.

HAELFRYDEDD ARDDERCHOG AC ESIAMPL ODIDOG DDA.--Da iawn genym allu cofnodi y ffaith fod Mr. Talbot a Mr. Vivian, yn wyneb yr amgylchiad galarus, wedi hysbysu yn gyhoeddus eu penderfyniad i gymmeryd arnynt eu hunain bob gofal priodol am y gweddwon a'r plant a ymddifadwyd trwy y digwyddiad athrist; fel na bydd anghen iddynt i bwyso ar y plwyfi nac i ymddibynu ar garedigrwydd y cyhoedd. Pan ysgrifenwyd at Mr. Talbot i'w hysbysu ynghylch y penderfyniad haelionus ag oedd perchenogion y gwaith wedi dyfod iddo, dan yr amgylchiad, attebodd y boneddwr parchus a haelfrydig ei fod ef yn cydnabod y rhwymedigaeth tuag at yr amddifaid, ond nad oedd yn foddlon o gwbl i'r drefn heb iddo ef, fel perchenog y tir, i gael bod yn yr hanner, yr hyn a ymrwymai i wneud gan nad pa gymmaint fyddai y draul. Dyma foneddwyr trwyadl, onide? Mae eu gweithred ardderchog uwchlaw canmoliaeth. Nid oes eisieu ond ei chofnodi. Fe dâl Duw iddynt, yma ac ar ol llaw. Bydd eu henwau mewn coffadwriaeth anrhydeddus gyda mwnwyr a glowyr eu gwlad, ac y mae pob lle i obeithio y bydd eu hesiampl, yn ei heffeithiau ar eraill dan gyffelyb amgylchiad. i fod yn wers ac yn fendith gyffredinol.

Y CYFANDIR.—Y mae sefyllfa pethau ar y Cyfandir yn parhau i fod yn bur anfoddhaol ac ansicr.

Ffraingc.—Pe gellid rhoddi coel i hyspysiadau *La France* ac eraill o newyddiaduron Paris, ymddengys "fod Ffraingc yn barod i gymmeryd mesurau grymus er amddiffyn Poland, ac nad ydyw ond aros am benderfyniad Lloegr ac Awstria." Dywed hefyd yr anfonir bryslythyr unedig oddiwrth y Tri Gallu i St. Petersburg ymhen ychydig ddyddiau. Wrth bob hanes, mae parotoadau rhyfelawl, ar gyfer rhyw achos pwysig anadnabyddus, ar droed yn Ffraingc, ac yn cael eu cario ymlaen yn egniol ac yn rheolaidd. Arwydd ddrwg yw—fod Gweinidog Rhyfel Ffraingc, ar gais yr Ymherawdwr, wedi parotoi adroddiad yn dangos i ba nifer y gellid codi byddin Ffraingc erbyn y 15fed o Fawrth nesaf, pe torai rhyfel allan. A ganlyn sydd grynodeb

o'r adroddiad:—Y fyddin reolaidd, 397 mil o wŷr; gwirfoddolion ac ymrestrwyr am ragdâl, 144 mil; ymrestrwyr 1863, y rhai a ellid eu galw allan, yn ychwanegol, yr hyn a godai nifer y gallu effeithiol i 690 mil o wŷr a swyddogion. Modd bynag, cyn y gellid cymmeryd unrhyw fesur o'r fath, byddai yn angenrheidiol i gael echwyn *(loan)* o 12 miliwn. Edrychir ar y ffaith hon, mewn cyssylltiad â sefyllfa bresennol cyllid Ffrainge, fel y sicrrwydd goreu am barhad heddwch; ond o'r tu arall gellir edrych ar y ffaith fod yr Ymherawdwr wedi gofyn am y cyfryw adroddiad fel arwydd ddrwg iawn.

Germany.—Mae penderfyniad byrbwyll tywysogion Germany, yn Frankfort, i ymyraeth a materion Schleswig trwy weithrediadau milwrol, os gosodir ef mewn grym, yn debyg o'u harwain i ryfel, nid yn unig â Denmarc a Sweden, ond â Lloegr a Ffrainge hefyd.

Rwssia a Poland.—Mae Rwssia hyd yma, gyda'i holl greulonderau, wedi methu darostwng y gwrthryfel. Ei disgwyliad yw, mae'n debyg, y gellir gwneud hyny cyn diwedd y gauaf; ac y byddir wedi llwyddo i ddifodi Poland cyn y bydd yn bosibl i neb o'r galluoedd ddyfod i'w gwared. Yn y cyfamser modd bynag, y mae'r Pwyliaid yn parhau yn eu penderfyniad, ac yn ymladd brwydrau pan y gwelir cyfleusdra, ac yn aml yn fuddugoliaethus.

America.—Yn ôl yr adroddiadau diweddaraf ymddengys nad oes nemawr o gyfnewid wedi cymmeryd lle yn sefyllfa y rhyfel yn America. Ar y Tennessee methodd Gen. Bragg a medi unrhyw fantais o bwys oddiwrth y frwydr a ennillodd ar Rosecrans, yr hwn sydd oddiar hyny wedi gallu sefyll ei dir yn Chattanooga, ac wedi derbyn rhan fawr o'r adgyfnerthion a ddisgwyliasai. Mae y byddinoedd yn Virginia wedi dechreu ail ymsymmud. Disgwylir clywed am ddigwyddiadau pwysig, ar y Potomac a'r Tennesee. Mynega y newyddion diweddaf o Charleston fod y porthladd wedi ei lwyr gau yn erbyn y llestri haiarnwisg. Yr oedd *torpedo* (llestri bychain llawnion o bylor sydd yn nofio dan y dwfr—a phan y tery llong ynddi, hi a ffrwydra) wedi ffrwydro tan yr *Ironsides;* ond ni wnaeth ond ychydig o niwed i'r llestr. Yr oedd y parotoadau i wneud ymosodiad ar Charleston o'r môr a'r tir ar unwaith wedi eu cwblhau. Y mae ymladd lled galed wedi bod yn Louisiana ac yn Missouri. Y Gwrthryfelwyr oedd yn fuddugol yn y flaenaf, a'r Undebwyr yn yr olaf. Dywedir fod y Llywydd Davis ar ei daith i Charleston, Chattanooga, a Mobile, gyda'r amcan o galonogi ei filwyr yn y lleoedd hyny. Mae yr etholiadau yn Pennsylvania ac Ohio wedi troi allan yn hollol ffafriol i'r Llywodraeth. Yn y flaenaf, ail-etholwyd y Cadfridog Curtin—yn yr olaf, gorchfygwyd Vallandigham. Y mae y ddwy dalaeth fawr hyn, y rhai ydynt yn meddu poblogaeth o bum miliwn a hanner—cynnifer a'r holl bobl wynion a gyfrifir yn awr yn ddeiliaid o'r Cynghrair Caethwasol—wedi llwyr orchfygu cefnogwyr caethwasaeth o fewn eu terfynau.

New Zealand.—Y mae pob lle i gasglu fod yr ymdrechfa bresennol rhwng brodorion New Zealand a'r Prydeiniaid yn debyg o fod yn un bwysig iawn. Yn ol y newyddion diweddaf, nid yn unig yr oedd llwythau galluog y Waikatosiaid, ond holl frodorion yr ynys ogleddol, wedi ymgodi mewn gwrthryfel. Ymddengys fod llwyddiant y Cadfridog Cameron wedi ffyrnigo y Maoriaid, ac wedi lladaenu yr anfoddogrwydd i blith llwythau oeddynt o'r blaen yn dawel. Dywedir fod 7,500 o'r Waikatosiaid, a brodorion ereill o amgylch Auckland, o dan arfau, a bod y wlad am ddeugain milltir i'r dehen yn un gwersyll mawr. Nid oedd y Cadfridog wedi derbyn adgyfnerthion pan oedd y llythyrgod ddiweddaf yn cychwyn, a ffynai pryder nid bychan yn mhlith yr ymsefydlwyr. Yr oedd Syr George Grey wedi galw cartreflu a gwirfoddolion y dalaeth allan, ac wedi penderfynu attafaelu tiroedd y gwrthryfelwyr, gyda'r bwriad o'u rhoddi i bersonau o Awstralia a ddeuent drosodd i'w helpu i ddarostwng y gwrthryfel.

CYFARFOD CWARTEROL GWYL MIHANGEL.

Cynnaliodd yr Undodiaid eu cyfarfod yr Hydref hyn yn Onnenfawr, ger Llandilo, ar ddydd Iau, y laf o Hydref, a'r hwyr o'r blaen.

Dydd Mercher dechreuodd y Parch. William Rees yr addoliad trwy ddarllen

a gweddi, a phregethodd y Parch. E. W. Lloyd oddiwrth 2 Timotheus iv. 7, 8, a'r Parch. William Thomas oddiwrth Esay xii. 14, 15, 16.

Boreu dydd Iau cyflawnodd y Parch. John Evans y rhan ddefosiynol o'r addoliad, a phregethodd y Parch. Owen Evans oddiwrth Ioan viii. 43, yn helaeth, pwysig a goleu neillduol.

Llefarwyd ar y pwnc "Beth yw Cristion," gan y Peirch. E.W. Lloyd, Thomas Thomas, William Thomas, Owen Fvans a Thomas Griffiths: ond gan fod cynnwysiad yr hyn ddywedwyd ar y pwnc wedi ymddangos yn yr YMOFYNYDD yn hanes cyfarfod Capel-y-groes, bernir yn afreidiol ail grybwyll gerllaw yr un peth, oddieithr yr hyn a lefarwyd gan Mr. E. W. Lloyd. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi a chanu mawl gan y Parch. Thos. Thomas.

Ymgyfranogodd y dieithriaid o'r ymborth ddygid gan gyfeillion y gynnulleidfa yn y capel, a chiniawodd y pregethwyr yn nhy Mrs. Jones, yn ol yr arferiad, er ys uchlaw 30 mlynedd, ac yn eu plith un o weinidogion y Bedyddwyr. Ar ol ciniaw trafodwyd amryw bethau perthynol i'r eglwysi; sef, y modd y dylid ymddwyn tuag at frawd neu chwaer difraw, esgeulus neu syrthiedig perthynol i'r eglwys; ynghylch y drefn oreu i sefydlu Cylch ein Cyfarfodydd Cwarterol, a pha fodd y dygir ymlaen ail-adeiladaeth Cwmmawrdu. Tanysgrifiwyd £10 tuag at ei ail-adeiladu gan y gweinidogion presenol, a gwneir ymgais cyn hir i ddwyn yr amcan i ben.

Pregethodd y Parch. Rhys J. Jones, a'r Parch. Thomas Thomas, yn y Tabernacl, addoldŷ yr Annibynwyr, ar bwys Llandilo, am saith o'r gloch nos Iau, a dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. John Davies, myfyriwr.

Mae y cyfarfod Nadolig i gael ei gynnal yn y Nottais, a Mr. R. J. Jones, M.A., i bregethu y bregeth dydd Iau. Y pwnc ar ol y bregeth—Beth sydd i'w olygu wrth "greadur newydd Ynghrist Iesu." Daeth ynghyd liaws o weinidogion, ac yr oedd y gwrandawiad yn astud a lliosog. Galarus oedd fod ein cyfaill, Dr. Lloyd, wedi cael ei symmyd oddiwrthym trwy angeu, a'n cyfaill Mr. James wedi ei analluogi i fod yn bresenol trwy henaiut a methiant.

Bu y cyfeillion yn gariadus iawn fel arferol i gydgynnal y cyfarfod, a chydweithredodd y Parch. Mr. Morgans, gweinidog y Trefnyddion Calfinaidd, trwy ddarparu ar gyfer dau weinidog dros ddwy noswaith pe yn eisiau; treuliodd T. Evans, ysgrifenydd y llinellau hyn, noswaith yn bur gyssurus yn anneddle Mr. Morgans. TITUS EVANS.

Marwolaeth.

Hydref 22, yn 74 oed, Joseph Joseph, o'r Wessyn, Llandyssul, tad y diweddar Barch. Peter Joseph. Y Llun canlynol, dydd ei angladd, gweddiodd Mr. Owens, Pencader, yn y tŷ, a phregethodd gweinidog y lle yn Llwynrhydowen oddiwrth Luc xvi. 31. Yr oedd y trancedig o alluoedd naturiol cryfion, y rhai a wrteithiodd nid yn gymmaint trwy ddarllen, a thrwy sylw a myfyrdod. Meddai feddwl clir a pharod ar y rhan fwyaf o bethau. Nid oedd llawer o faterion mewn na gwlad nac eglwys na chawsent ar ryw bryd ei ystyriaeth ef, ac yr oedd ganddo farn gwerth ei gwybod am danynt. Buasai yn un o aelodau ffyddlonaf y diweddar Barch. John Thomas yn Mhantydefaid am faith flynyddau, a chyfaddefai bob amser y mawr rwymau yr oedd danynt iddo am ei weinidogaeth addysgiadol. Er ys tro, arferai fynychu y Llwyn, a dygai fawr sel dros yr achos yno a gwnaeth fawr wasanaeth iddo mewn cynghor a meddianau. Yr oedd ef y blaenaf i fynu adnewyddu'r capel yn ddiweddar, a chafodd fyw i weled gorphen y gwaith. Yr oedd iddo gymeriad uchel fel dyn cywir mewn pob trafodaethau, Dewisach ganddo bob amser wneyd yn well na gwneyd yn waeth na'i air. Nid oedd yn rhyw siaradwr iawn, na rhy barod i roi ei feddwl i eraill, ond yr oedd yr hyn a wedai yn werth ei wrando. Yr oedd wedi bod yn ddyn o arferion diwyd a chynil iawn, yn anfoddlawn iawn i wastraff ac anghymedroldeb gyda dim. O ran ei farn grefyddol Undodwr penderfynol oedd; cymaint o Undodwr nes yr oedd yn medru ymddwyn yn hynaws at bob dosparth arall o Grist'nogion. Fe welir llawer o'i eisieu yn y gymydogaeth ac yn y gynnulleidfa; ond ein dyledswydd yw diolch i Dduw am estyn ei fywyd cyhyd, ac ymdawelu, yn gymaint a rhyngu bodd iddo Ef ei alw ymaith o'n plith. "Dy ewyllys Di a wneler."

CYFAILL

Esgorwyd.

Esgorodd priod y Parchedig Titus Evans, Caerfyrddin, dydd Llun y 26ain o Hydref, (y mis diweddaf) ar fab.

Barddoniaeth.

ENGLYNION

ar y mawr les a daioni a ddoeth i ddyn trwy yr efengyl ac adgyfodiad Iesu Grist.

Iesu a ddygodd i'w weision– ffyddlawn
Hoffeiddlwys gyssuron ;
Byw ethol yw'r gobeithion,
Tragwyddol i'r freuol fron.

Da mwynaidd a dymunol—wiw araeth
Yw ei eiriau nefawl ;
Yn nef lŷs, gwir felus fawl,
A drig iddo'n dragwyddawl.

Y niwlen a drôdd yn olau—clirwych—
Do cliriodd y rhwystrau ;
Cododd o fedd, culfedd cau,
Lluddiodd ing—lladdodd angau.

Yn y llwch, hunwch, fan hynod—felly,
Gyfeillion, is tywod ;
Uwch cwynfan, ceir eich caufod
Ar dir hedd, yn niwedd nod.

REUBEN, BRYDYDD Y COED.

Dihewyd, Ceredigion.

O'r Seren Gomer, Ionawr, 1830.

Y LLYNGCWR DIOD I'R BOTEL.

Mae'n rhyfedd iawn, ac nis gwn sut
Y gall peth fel 'ny fod,
'Dwy'n cofio dim i ti a mi
Gyd-dynu dim erio'd ;
Can's 'rwyt ti'n llawn, pan bwyf fi'n sych,
(Mae'n wir yn rhyfedd iawn),
A phan yn sych y byddot ti,
'Rwyf fi pryd hyny'n llawn.

GORONWY OWEN.

YMOSTYNGIAD I'R EWYLLYS DDWYFOL.

[O'R SAESNEG.]

Nid wy'n dwedyd "O Dad Nefol,
Cadw fi rhag blinder byd,
Ond O ! deffro di fy nghalon
At ddedwyddwch pur o hyd ;
Nid wy'n gofyn, na foed cwmmwl
Ar fy nhaith ddaearol i,
Ond yn wir, yn ostyngedig
Gwneler dy ewyllys di."

Dyro'r hedd o fewn fy nghalon,
Bâr hyd dragwyddoldeb maith,
'R hwn nis gall y byd ei roddi
Na'i ddistrywio byth ychwaith ;
Dyro immi'r cariad mwyaf
A llawenydd pura'r nen,
'R hwn a roddir i'r angylion
Drigant yn y byd uwchben.

Fel y gallwy'n eglur weled,
A chyduabod ar bob pryd,
Mai goleuni—mai gwirionedd
Ydyw'th 'wyllys ddoeth i gyd ;
Rhai'n gynnyrchant wir ddedwyddwch,
Rhai'n, O Dad ! fo'n eiddo im' ;
Am wag bethau darfodedig
Y byd hwn 'd 'wy'n hidio dim.

Rhwysg a mawredd a phleserau,
Balchder a gogoniant byd,
(Gwag eilunod meddwl dynol),
'Rwyf yn eu cashau i gyd.
Arwain di fy llwybrau, cyfod
Deml o fewn fy nghalon wiw,
Ac O ! yno llywodraetha
Di, fy Mrenin, a fy Nuw !

Felly bydded fy modolaeth
Megys hyfryd Sabbath ddydd,
Yn ymlithro'n dawel tawel,
O holl rwymau'r byd yn rhydd ;
Boed y deml hon yn wastadol,
Tra parhao'm bywyd i,
Yn deml hardd fo'n gyssegredig
I'r gwirionedd ac i Ti !

SHEM.

Y PEDAIR ALBAN.

Buddugol yn Eisteddfod Penybont, Mehefin 15fed, 1863.

Cododd Haul cyhydedd Eilir—i'r Hwrdd :
Er urddas cynelir
Ein llên ŵyl, a meillion îr
Arwyddant y cnwd roddir.

O râd ddorau'r dydd hiraf—acw'r Haul
Yn y Crange ganfyddaf ;
Y "Derw bendigaid" doraf—
Defod fydd ar hirddydd haf.

Cyhoeddi'n gwledd gyhydeddol—Haul fydd,
Yn Elfed o'r Fantol ;
A rhoddir yn arwyddol
Dusw i ddyn o dwys y ddol.

Yr Haul yn yr Afr a welwn ;—Arthan
A'i rhyferthwy deimlwn ;
Uchelwydd yn iach hwyliwn,—
Bardd a ddysg drwy'r byrddydd hwn.

AP MYFYR.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.

At ein Gohebwyr.

DERBYNIWYD :—Llywelyn Alaw ; G. Brycheiniog ; A., a Rhydderch (T. H.)

*** Rhydderch a G. Brycheiniog.—Yr Englynion yn ein nesaf.

*** *Diwalliant Hanesiaeth, gan y Parch. E. Lewis, Cilgwyn,* a fwriedir i fod yn bum' Rhan 6c. yr un. Dymunem roddi ein enw fel tanysgrifiwr i'r gwaith, gan obeithio fod Mr. L. bellach wedi derbyn digon o annogaeth i fyned âg ef i'r wasg.

*** Anfoner y Gohebiaethau a phob *Orders,* yn brydlawn, at y Golygydd, cyfeiriedig fel y canlyn :—*Rev. John E. Jones, Unitarian Minister, Bridgend.*